Presented to
President B. Young
by John Davis
1860.

Nephi L. Morris
Jan 19. 1940
Jallen Spencer

Vault
Book area
M285.2
H99mel
1849
338760

# CASGLIAD

O

# HYMNAU NEWYDDION

YNGHYD AG

## ODLAU YSBRYDOL,

AT WASANAETH

## SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF.

---

MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD AC AR WERTH GAN J. DAVIS,

YN GEORGETOWN.

1849.

# RHAGYMADRODD.

Mae y cynnydd anarferol sydd yn mhlith y Saint, oddiar pan gawsant Lyfr Hymnau o'r blaen, y fath, fel nad oedd un o bob deg o honynt yn feddiannol arno; ac o ganlyniad, yr ydys yn awr yn cyflwyno iddynt Gasgliad o Hymnau newyddion, o waith amrywiol frodyr a chwiorydd yn eu plith, y rhai a feiddiant ganu heb i'w gelynion allu dweyd eu bod yn defnyddio cynnyrch y byd. Mae yn wir y geill dwy neu dair o hymnau enwadau ereill fod wedi dianc i mewn erbyn ein gwaethaf, trwy fod brodyr yn eu hanfon atom yn rhith rhai newyddion. Mae llythyrenau cyntaf enw pob un wrth ei hymnau, oddieithr y rhai a gyfansoddwyd gan y casglydd, pa rai a wahaniaethir â seren (*). Dichon y gwel llawer un gyfnewiadau aml yn ei hymnau, yr hyn a wnaed trwy ganiatâd rhai, ac yn ddiarwybod i ereill. Dyben y casglydd oedd eu gwella, nad beth yw y canlyniad: os troseddodd, erfynia faddeuant, a sicrha na ddiwygia ragor ar hymnau anfedrus, ond y taflu hwy o'r neilldu. Ond odid na wel y gwir brydydd lawer o feiau, a diffyg archwaeth, yn y llyfryn hwn, fel mewn rhai ereill o'i flaen; ac y bydd yn barod i synied gyda'r cyhoeddwr, nad yw "yr hyn sydd berffaith" wedi dyfod i fodoliaeth etto, eithr y daw heb fod yn hir. Yr ydys wedi gadael

holl hymnau yr hen lyfr ar ol, fel y gallo pob un a ddewiso ei rwymo gyda'r un newydd, a thrwy hyny feddu ar fwy o gyflawnder. Fel y gwelir, cymmysgwyd yr hymnau yn y llyfr hwn yn ddiwahaniaeth, a dyfeiswyd dull newydd hollol i gael gafael ynddynt. Yn y "Mynegai" dosperthir yr holl hymnau yn ddau ddosparth, un yn cynnwys hymnau at wasanaeth cyfarfodydd cyhoeddus, a'r llall at wasanaeth cyfarfodydd cymdeithasol, fel na bydd achos i neb roddi hymnau anmhriodol i'w canu: ac i'r dyben hyny hefyd, rhanwyd y ddau ddosparth dan sylw yn wahanol destunau, fel y gellir cael gafael ar hymn i ateb pob achlysur. Gobeithir, gan hyny, na chlywir neb mwyach yn canu ynghylch ymadael, ar y pryd y byddont yn ymgynnull,—na meddwl eu bod mewn cynghor neu gynnadledd, pan mewn cwrdd pregethu neu weddio. Byddai yn ddoethineb yn y cantorion i fynu gwybod yn mlaenllaw pa hymnau i ganu, fel y gallont ofalu am dônau addas Barnwyd y gallai yr ychydig hymnau newyddion Seisnig sydd ar y diwedd, fod yn ddefnyddiol yn absennoldeb y Llyfr Hymnau Seisnig. Wedi hysbysu cymmaint â hyna, rhoddir y cyfan at wasanaeth y Saint, ac i fod dan fendith Duw er eu dedwyddoli, gan eu hufydd was,

J. Davis.

# MYNEGAI.

## HYMNAU CYFARFODYDD CYHOEDDUS.


*Adferiad.*

Bendigedig fyddo'n Ce 12
Y boreu ddaeth, a'r ni 1
Mae'r boreu'n agosâu 169
Mi wn y daw ein Crist 133
Pa beth yw'r arwydd 147

*Angladdau.*

Gwyn fyd y rhai yn le 52
Hoff gan natur yw gal 63
Pa'm tristawn am far 61
Pa'm wylwn am ein 62

*Bedydd.*

Ar lan y dwfr sefyll w 178
Edrychwn ar yr Oen. . 113
Ffydd heb weithredo 114
O ddynion, pa'm aros 11

*Babilon.*

O deuwch allan 'nawr 74
O, frodyr, ffowch o Ba 9
Yn llwyr dinystrir Ba 116

*Diolchgarwch.*

Clodforaf fy Nhad nef 101
Cydganed engyl nef .. 141
Gwaith melys iawn yw 90
Moliannus fyddo ein 92
Molianaf byth fy Nuw 15
Molianwch Dduw, yr 153
O canwn fawl soniar 42
Praise God from who 194

*Dyfodiad Crist.*

Ein Iesu âd ei drigfa 37
Galara llwythau'r dda 23

*Efengyl.*

Beth a welwyd yn y ne 2
Daeth angel i waered 164
Daeth efengyl teyrnas 91
Diolchwn i'n Tad nef 6
Dyma grefydd wedi 'i 173
Efengyl Crist a elo dr 151
Ewch i'r holl fyd, me 77
Fe ddadguddiodd Du 40
Fe wawriodd hyfryd 83
Henffych i'r dydd, y 121
Llwyddo wnelo'r fwy 181
Mae baneran'r nef yn 28
Mi wn fod efengyl yr 59
O deuwch i'r tir, lle 5
Ust! clywch air yr Ar 84
What was witness'd 181
Yn llwyddo mae'r efe 169
Yr efengyl a ddadgud 78

*Eglwys.*

Duw osododd yn ei dy 119
Dyma y cyfammod ne 25
Nyni, O Dduw, dy sei 4

*Erlid.*

Dringaf drwy yr erlid 60
Fe addawodd Brenin 22
Ei cymmanat yw'r en 69

*Gwahodd.*

Beth yw'r alwad sydd 156
Deuwch, bo'l drigolı 88
Hoed pawb sy'n ofnog 170
Ergi l gwerth awı ts 189
Fel dyddiau Noah, fell 86
Gwrandawed holl dri 130
Hark! 'tis Jehovah's 193
Mae Duw yn galw 'na 14
O bechaduriaid, trow 17
Pa'm na chredwch ein 16
Taer ydyw galwad Du 67
Yn awr mae Duw yn 112

*Gweddiau.*

Arglwydd grasol, rho 168
Arglwydd, nertha di 115
Llawer sydd o'th weis 182
Yanerthwn ynot ti, ei 108

*Seion.*

Edrychais i addewid 161
Gwlad dda sy'n aros 159
O, dewch yn lluoedd 35
O mor hyfryd fydd yn 47
Pan ddelo'r Saint oll 81
Teg eh bro llawenyd 26
Yn Seion bydd y Saint 105

*Teyrnas.*

Ang deyrnas Iesu boed 63
Deuwch i'r deyrnas.. 180
Duw anfonodd Oen ei 80
Dy deyrnas di ein net 93
Dyma deyrnas a swyd 51
Mae'n gareg a dorwyd 8
Mae y deyrnas wedi d 24
Y garegfach a welodd 135
Yn gyntaf ceisiwch d 13

*Ymfudo.*

Yn iach! i bawb yn a 73
Yn iach yn iach! gyf 137

*Yr Amrywiaethau.*

Ca'i Saint am bob gor 89
Clod fo i'n dyn gyfrin 166
Cymmanfa etto ddart 48
Chwi, ie'nctyd mawr 171
Daeth Iesu Grist o'r 110
Daeth yr awr i feibion 79
Daw, daw .......... 142
Daw yr amser pryd 183
Dwylaw y diwyd wne 128
Dydd gorphwys etto i 58
Dyma foreu Sabboth 59
Dyma Sabboth wedi'i 57
Er i ni golli'r ddelw 38
Fe ddaw Michael yr 102
Fe ddylid profi pob pe 160
Fel hyn y d'wedodd Ll 140
Geiriau Duw sydd yn 184
Hoff seintiau y dyddia 132
Llawer sydd yn gweth 95
Mae'n wir y gwywa lly 41
Mae ufyddhau i eiriau 33
Melys ydyw geiriau'r 175
O, gwyn fyd y dynion 3
O, mor hardd fydd yr 18
Pa Dduw yn mhlith y 18
Pwy sy'n meddu yr 167
Pwy yw'r un deg hon 176
Rhyw foroedd didrai 82
Y Duw addola eraill 72
Y dyddiau diweddaf a 21
Yn mlaen, yn mlaen 99
Yr ordd Crist a'i apos 174

## HYMNAU CYFARFODYDD CYMDEITHASOL.


*Cariad.*

Gwin gariad mewn un 30
Ni chwympa cariad 103

*Cynghor.*

Arglwydd, disgyn trwy 96
Arglwydd, edrych ar 120
Arglwydd, eltory dym 129
Arglwydd, 'madael m 97
Doed y Dyddanydd o 125
Hyfryd ewidd un wai 32
O Arglwydd Ddnw, an 124
O Dad, henuriaid egl 123
O Ddnw, mynega 'na 122
Wele'th weision, Argl 179

*Doniau.*

Amryw ddoniau trwy 55
Fel tân sydd yn llosgi 117
Y doniau nefol, Argl 134

*Gweddiau.*

Arglwydd, anfon y Dy 145
Bendithia ni O Argl 154
Bydd, O Arglwydd, gy 94
Cysura di, O Dad, dy 155
Dy Ysbryd, Arglwydd 10
Fe'n gwrandewir gan 143
Gwrandaw, Arglwydd 186
O Arglwydd, dyro im 131
O, Arglwydd grasol, n 7
O, Dad o'r nef gwran 20
Yn adrodd geiriau w 128

*Mawl i Dduw.*

Clodforwn Dduw bob 107
Cydunwn, deulu Seion 31
Dyma destun newydd 187
O frodyr a chwiorydd 185

*Sacrament.*

Er cof gwnewch hyn 158
Hoff yw cofio am far 118
Pan yn cofio am farw 87
Y mae cofio angeu'r 46

*Seion.*

Ble mae'r wlad, a'r m 163
Draw mae'r gamp a 162
Edrychaf 'mlaen o hy 136
Gwrandawed nef a da 126
Hyfryd ydyw hun y 148
I fynydd Seion O fy 23
Nid oes yma ond gor 127
Ni gawn fyned maes 39
O Seion, pan feddylr 104

*Ymadael.*

Angylchiadau sydd yn 49
Ar ddiwedd dydd yr w 27
Rhaid ymadael o'n cy 54

*Ymgyfarfod.*

Anwyl frodyr a chwi 34
Cawn ddechreu oedfa 106
Mor hyfryd yw cyfar 85

*Yr Amrywiaethau.*

Am y newyddion da. 146
Arglwydd, galw i dy 15
Arglwydd grasol, tho 172
Cnawn yn hyfryd.... 152
Clod am grefydd yn 188
Dewch gyda mi; dew 71

| | | | |
|---|---|---|---|
| Derbyniwch 'nawr yr | 165 | Ni, frodyr un galon | 98 |
| Diolchwn beunydd am | 66 | O, fy mrodyr a clŵ o | 43 |
| Dyma gyfle newydd in | 64 | O, God, give strength | 192 |
| Dy Ysbryd di, O Argl | 111 | O, mor hyfryd gwe 36, | 65 |
| Ein breintiau mawr | 144 | Pan wawriodd y bore | 76 |
| Fe gawn, fe gawn fedd | 139 | Sing praises, O brethr | 190 |
| Fel milwyr dewrion | 44 | Tyr'd, Ysbryd Glân | 149 |
| Frodyr anwyl a chwi | 56 | Wele, mor ddymunol | 70 |
| Hoff yw trigo gyda'r | 157 | Yn ffyddlawn fe fu Jos | 177 |
| Mawrygwn ein brein | 45 | Yn mlaen mae'r Saint | 100 |
| Mor hyfryd yw cymd | 150 | Ysbryd yr Arg. fel tân | 53 |

## EGLURHAD O'R MESURAU.

M. C. yw Mesur Cyffredin.
M. C. D. yw Mesur Cyffredin Dwbl.
M. S. yw Mesur Salm.
M. B. yw Mesur Byr.
M. H. yw Mesur Hir.
M. H. D. yw Mesur Hir Dwbl.
M. N. yw Mesur Neillduol.

# HYMNAU.

1 M. H.

Y BOREU ddaeth, a'r niwl sy'n ffoi!
  Gwel faniar Seion yn ei hyd!
Goleuach dydd sy'n gwawrio 'nawr
  Yn ogoneddus ar y byd.

Cymylau cyfeiliornad ffont
  O flaen pelydrau dwyfol wir;
Y mawr ogoniant oddi draw
  Dŷr ar y gwledydd cyn bo hir.

Daw llawnder y cenedloedd mewn,
  A chasgla Israel oll i'w gwlad;
Ca gweddill Juda eu glanhau,
  A'u dwyn yn ol i'w Canaan fâd.

Llais Duw sy'n dweyd! rhoed daear glust;
  Na throed cenedloedd rhagddo bant:
Ei nerthol fraich ddynoetha'n glau,
  I achub ei ammodol blant.

Engyl o'r nef, a gwir o'r ddae'r,
  Fu'n cwrdd, gan ddwyn tystiolaeth gref;
Fel hyn tŷr llewyrch Seion maes,
  Er dwyn eu hanwyl blant i dref. *

**2** M. N. 8, 7.

Beth a welwyd yn y nefoedd?
  Angel yn ehedeg lawr.
A oedd rhywbeth ganddo'n dyfod?
  Oedd—efengyl Iesu mawr.
Y mae hono i'w phregethu
  I bob cenedl, llwyth, ac iaith—
I'r holl bobloedd ar y moroedd,
  Ac ar wyneb daear faith.

Onid oedd efengyl genym?
  Oedd—braidd rif y tywod mân.
Wel, beth yw'r efengyl newydd?
  Hen efengyl fu o'r blaen.
Dyma'r un bregethai Pedr,
  Dyma'r un bregethai Paul;
Dyma'r un bregethwn ninnau,
  Mewn awdurdod ar eu hol.

P'le mor hir y bu'r efengyl?
  Yn ei "hymadawiad" bu.
Beth a ddaeth o'r rhai fu hebddi?
  Duw yn Farnwr cyfiawn sy.
Cnwd ni cheisir lle nis hauwyd,
  Na dydd goleu lle bo nos:
'Nawr llewyrchu mae goleuni—
  Na foed neb yn gwel'd yn groes.

**3** M. N. 11au.

O, gwyn fyd y dynion sy'n ufyddhau 'nawr
I gyfraith y nefoedd, eu braint sydd yn fawr;

Er iddynt gael erlid a dirmyg y byd,
Cânt fyned i Seion ar fyrder ynghyd.
Teyrnasant gyda Christ
Am fil o flynyddoedd, heb un yno'n drist.

O dan ei winwydden eistedda pob un,
A dan ei ffigysbren, heb neb yno'n flin,
Yn gwledda'n y deyrnas addawodd eu Tad
I Abra'm, ac Isaac, a Jacob, a'u hâd.
Gwledd pasgedigion llawn,
A gloyw win peraidd, yn newydd a gawn.

J. T—S.

4 M. H.

Nyni, O Dduw, dy seintiau, sydd
Yn addef nerth yn ol y dydd;
Y sawl a ddel i'n heglwys ni,
A wêl dy fawr weithredoedd di.

Yr un wyt 'nawr ag oe't erioed,
Yr un tragwyddol etto i fod;
A ninnau, 'th saint, sy'n eglurhau
Dy nerthoedd gwyrthiol i barhau.

Yr un yw goruchwyliaeth gras,
A'r awr dylifodd gynta'i maes;
A'r un mor rhad drugaredd Rhi,
Can's digyfnewid ydwyt ti.

Pwy yn un lle all ddweyd yn llyn,
Yn erbyn gwyrthiau'r dyddiau hyn,
Heb fod yn groes i'r 'sgrythyr lân,
Am nerthoedd glwys yr Ysbryd Glân,

O, deuwch, wywedigion byd,
Am nawdd i'n harch, O ffowch mewn pryd;
Dewch gloffion, deillion—pob rhyw rai;
Edifarhewch, cewch eich iachâu.

Tafodau newydd hynod iawn,
Trwy Ysbryd Duw yn hyfryd gawn;
A'r doniau oll, nyni a'u medd,
Credinwyr heirdd Efengyl hedd.

O, Arglwydd, saf o blaid dy saint,
O'th nefol fro dylifa'th fraint,
I'th deyrnas wyrthiol fyn'd ar led,
Ac anffyddloniaid roddi cred. C.

**5** M. N. 12au.

O, deuwch i'r tir, lle d'wedodd yr Arglwydd;
Holl garwyr y gwir, ffowch, ffowch rhag yr
affwydd;
Mae'r digter gerllaw, a braw'r annuwiolion,
Sef dystryw y cyfryw ni ddeuant i Seion.
Moliannus fo Duw am dangos dihangfa,
Lle gallwn gael byw pan dywallter ei
farnau.

Adferwyd trwy'r angel 'r efengyl dragwyddol,
(Yn lle traddodiadau, caed doniau ysbrydol),
Yr hon a bregethir trwy'r byd er tystiolaeth,
Ac yna difodir yr anwir ar unwaith.
Moliannus fo Duw, &c.

Er iddynt ddiddymu'r cyfammod tragwyddol,
Trwy ladd gweision Iesu, a gwadu'r iawn
reol;

Ond eilwaith adferwyd hi gan y Goruchaf,
Mae'nawr gyda seintiau y dyddiau diweddaf.
  Moliannus fo Duw, &c.

Fe dd'wedodd yr Iesu cyn iddo ddyrchafu,
'R anfonai ei Ysbryd i dywys a dysgu
Yr holl rai a gredant, fo wedi 'u bedyddio—
Pawb geidw 'i orchymynion i gyd, heb ddiffygio.
  Moliannus fo Duw, &c.

Yr un yw yr Iesu yn awr â'r pryd hyny,
A'i holl addewidion sydd ffyddlon heb ballu;
Mwynheir yr un Ysbryd, ac hefyd ei ddoniau,
Yr awrhon yn eglur yn eglwys y seintiau.
  Moliannus fo Duw, &c. R. R.

## 6 M. N. 7, 6.

Diolchwn i'n Tad nefol
  Am yr efengyl lon,
Ddadguddiodd ef i'r ddaear
  Yn y genedlaeth hon;
Mae hon yn llawn bendithion—
  Arwyddion, 'rwyf yn dyst,
Yn canlyn y rhai greda,
  Fel d'weda Iesu Grist. J. T—S.

## 7 M: S.

O, Arglwydd grasol, nertha ni
  I droedio llwybrau union,
Hyd nes y byddom oll trwy ffydd
  Orchfygu ein gelynion. T. G.

**8** M. N. 9, 8.

Mae'r gareg a dorwyd o'r mynydd
  Yn treiglo trwy'r gwledydd yn glau;
Y deyrnas wir addas ddiwreiddia,
  'R oes yma, holl gynnydd 'run gau;
Yr Iesu deyrnasa mewn heddwch,
  Mae'n agos lonyddwch ei saint,
Yn Seion hyfrydlon fe'n gwelir,
  Mewn agwedd lon eglur, heb haint. R. R.

**9** M. S.

O frodyr, ffowch o Babilon
  I Seion am eich bywyd;
Ei chwymp a'i dystryw sydd gerllaw,
  Ei chur a'i braw dychrynllyd.

Ar anwireddau dynol ryw,
  Fe graffodd Duw y nefoedd;
Rhydd iddynt phiol lawn o lid,
  Am erlid ei hoff bobloedd.

Mae Crist yn gweled gwawd dibaid
  Holl ddeiliaid teyrnas Satan;
Mae'n gweled hefyd boen a chur
  Ei frodyr hoff ei hunan.

Y byd nid adwaen Duw na'i blant,
  Ni welant chwaith ei deyrnas;
Maent fel y d'wedodd Crist ei hun
  Wrth un, sef Nicodemus.

"Oddieithr geni dyn drachefn,
  Mewn trefn o ddwr a'r Ysbryd,

Nid aiff yn wir i'm teyrnas, cred,
I weled fy mawr olud."

Myn Duw ei feibion cyn bo hir,
Ynghyd i dir heddychol;
Arllwysir hefyd ar y byd
Ei lid o lawer phiol.

Ond gwelaf ddinas draw trwy ddrych,
A gorwych gadarn gaerau;
O fewn i hon caf ddiogel fyw,
A Duw yn amddiffynfa.

Ond i mi gywir ddilyn Crist,
Trwy flinfyd trist a rhwystrau,
Fy nerbyn gaf i'w gynhes gol,
A'i anwyl siriol wenau. R. E.

10 M. N. 6, 4.

Dy Ysbryd, Arglwydd mawr,
O anfon ef i lawr,
I'm nefolhau;
Fel bo gwageddau'r byd,
Yn marw yn fy mryd,
A chwantau cnawdol gyd,
Ac ysbryd gau.

Cyfeiliornadau'm hoes,
Dy air i'r rhai'n sy'n groes:
A moes i mi,
Ryw adnewyddol nerth,
I'w gyru draw yn gerth,
A dangos hefyd werth
Dy aberth di.

**11** M. N. 7, 6.

O, ddynion, pa'm aroswch?
  Pa'm gwnewch chwi oedi cy'd,
Heb gym'ryd eich bedyddio?
  Mae heddyw yn llawn bryd;
O, codwch groes yr Iesu,
  Ei iau sy'n esmwyth, gwn;
Cewch nerth ei ddwyfol Ysbryd
  I esmwythâu eich pwn.

A'r nef a'r ddaear heibio,
  Cyn pallo geiriau Duw;
Ffordd gul yn unig drefnodd,
  Er achub dynol ryw;
Rhaid ufyddhau i fedydd,
  Er dod i deyrnas Crist,
Ac er maddeuant pechod—
  Mae'r Gair yn eirwir dyst. M. J.

**12** M. N. 8, 7.

Bendigedig fyddo'n Ceidwad,
  Am adferiad gwerthfawr râd;
Aed yn mlaen mewn rhwysg ei deyrnas
  I bob dinas a phob gwlad;
Frodyr tirion, er d'ystyrwch,
  Byth na pheidiwch ddweyd y gwir,
Dûw a farn ei holl elynion,
  Ein caseion, cyn bo hir.

Pan fo'r byd mewn gwae dychrynllyd,
  O mor hyfryd fydd y saint,

Gyda'r Iesu yn ei garu,
  Ac yn canu heb un haint;
Cawn bryd hyny gyd-deyrnasu,
  Gyda'r Oen ar Seion fryn,
Os parhawn ni hyd y diwedd;
  Duw'r gwirionedd dd'wedodd hyn.

Gan nad oes dim cyfnewidiad
  Yn ein Ceidwad mawr ei ddawn,
Ni newidiodd ddim o'i bethau
  Yn ei dŷ, maent oll yn iawn;
Apostolion a phrophwydi,
  Idd ein dysgu yn ffordd Duw,
Doniau gwyrthiol a ganlynant
  'Rhai a gredant, eglur yw.

Er fod dynion hunan-ddoethion
  Wadant roddion pena'r Nef,
'N rhoi haeriadau nad oes eisieu
  Rhai o'i ddoniau gwerthfawr ef;
Gau-athrawon ynt annoethion,
  Hollol groesion i'n Duw ni;
Rhith dduwioldeb sy'n eu meddiant,
  Canys gwadant ei grym hi.

Rhai sy'n ufydd i Dduw'r nefoedd,
  Ddont yn lluoedd o bob lle,
I dir hyfryd yr addewid,
  Maes o'r gofid, medd Efe;
Cur a galar ffoant ymaith,
  Troir ein gobaith yn fwynhad,
Gwel'd ein Brenin yn ei degwch
  Gawn, a phur hyfrydwch gwlad.

Bendigedig fyddo'n Ceidwad,
Am ddadguddiad yn eu gwydd,
Ac am arwydd o foddlonrwydd
Ein·Pen-llywydd yn ein llwydd;
Er fod byddin yn ein herbyn,
O rai cyndyn yn mhob gwlad;
Mae gwir obaith buddygoliaeth
Yn arfogaeth Duw ein Tad.

Pan fo'r Iesu mawr yn dyfod,
Fe fydd trallod trwy'r holl fyd;
Llwythau'r ddaear gyd-alarant,
Pan ei gwelant, ânt yn fud;
Rhai sy'n awr yn cenfigenu,
Wrth braidd Iesu llon a'u llwydd,
Gânt eu sathru gan ein Brenin,
Gyda'i fyddin, yn ein gwydd! R. R.

13 M. C.

Yn gyntaf ceisiwch deyrnas Dduw,
Na cheisiwch olud byd;
Y trysor goreu ceisiwch chwi;
Mae'r lleill i'w cael o hyd.

Mae'n fwy o les i enaid dyn,
Na'r byd a'i olud mawr,
I ryngu bodd ei nefol Dad,
A gwneyd ei gais bob awr.

Bydd hyn yn olud o barhad,
Nas gwyr y byd ei faint—
Cael etifeddu Seion Duw,
A thrigo gyda'i saint.

Caniadau Moses ac Oen Duw,
  Fydd yno'n boddio'r glust;
Ceir drachtio'n llon o'r newydd win,
  Yn neithior Iesu Grist. *

14 M. N.

Mae Duw yn galw 'nawr,
    O gwrandewch;
Mae'n cynnyg rhoddion mawr,
    O gwrandewch;
Er bod i Dduw'n anufydd,
Maddeuant gewch trwy fedydd,
A gafael ar wir grefydd,
    Os gwrandewch.

Mae Duw yn galw 'nawr,
    Pa'm na ddewch?
Mae'n cynnyg rhoddion mawr,
    Pa'm na ddewch?
Cewch eglurhad yr Ysbryd,
Ynghyd â'i ddoniau hyfryd,
I'ch tywys tua'r bywyd,
    Pa'm na ddewch? *

15 M. N. 6, 8.

Moliannaf byth fy Nuw
  Am drefnu bedydd dwr;
Mae ordinhad o'r nef
  Yn golchi beiau'n siwr;
A'r Ysbryd Glân sy'n dod i lawr,
Sy'n profi i ni rywbeth mawr. *

## 16 M. N. 8, 7.

Pa'm na chredwch ein tystiolaeth?
 Pa'm na phrofwch bob peth sydd?
Pa'm na fynwch gael goleuni,
 Tra mae 'nawr yn oleu dydd?
Pa'm na charech feddu sicrwydd,
 Yn lle gobaith gwan a chred?
Pa'm na chydiwch yn y sylwedd,
 Yn lle'r cysgod diddym red?

Pa'm na hoffech gael y doniau—
 Dawn i bawb fel myno Duw?
Pa'm na chredwch 'nawr mewn gwyrthiau,
 Tra mae'r Hwn a'u gwnaeth yn fyw?
Pa'm na charech ddawn i wella,
 A mynegi peth i ddod,
A llefaru mewn tafodiaith,
 Tra mae'r hyn "o ran" mewn bod?

Pa'm y credwch "rith duwioldeb,"
 A chan wadu'n llwyr ei "grym?"
Pa'm y dysgwch chwi bob amser,
 Tra nas gellwch wybod dim?
Pa'm na roddwch lwyr ufydd-dod
 I holl eiriau Brenin nef,
Fel y caffoch wir wybodaeth,
 Trwy ddadguddiad, ganddo Ef?

## 17 M. H.

O bechaduriaid, trowch mewn pryd—
Ar bechu mwy na rowch eich bryd;

Ond ffowch am rad faddeuant Duw,
Ag ysbryd prudd a chalon friw,
Y taliad cyflawn ar y pren,
A roddwyd gan Enneiniog Nen,
All glirio'ch beiau mawr a mân,
A'ch arbed rhag haeddiannol dân.

Os ufyddhewch, cewch ffafr Duw,
A thrwy ei Fab ef fythol fyw:
Mae'r fraint yn rhad, a thaer yw Ef
I annog dyn i wrando 'i lef. *

**18** M. N. 8, 7.

O, mor hardd fydd yr olygfa
Ar y dyrfa yn y wlad,
'Rhon addawwyd gynt i Abra'm,
Isaac, Jacob, ac i'w hâd;
Yno ceir o basgedigion,
Ac o newydd loyw win;
O, am fod yn un o'r dyrfa,
Yn nghwmpeini Mab y dyn. T. G.

**19** M. N. 7, 6.

Pa Dduw yn mhlith y duwiau
Debyga i Dduw'r saint,
Yn medru iachâu'r cleifion,
A rhoi 'ynt bob rhyw fraint;
Rhydd ddoniau ei Lân Ysbryd,
Rai hyfryd, i bob un,
I'r dyben o'u perffeithio
Yn debyg iddo'i hun. T. G.

**20** M. N. 7, 6.

O, Dad o'r nef, gwrandawa
  Ar weddiau taer dy blant,
A gyr o fysg dy bobl
  Bob rhyw ammheuon bant:
Mewn ffydd aed ein herfynion
  I'r lân i lys y nef,
Fel caffont eu costreli,
  A'u hateb ganddo Ef.

Gwnawn weddio mewn gwirionedd,
  Ac yn yr Ysbryd Glân,
Oblegid Duw sy'n gwybod
  Pwy fedd gydwybod lân:
Na feiddiwn at yr orsedd
  Heb hyder llawn yn Nuw;
Heb ffydd yn enw'r Iesu,
  Ein gweddiau byth ni chlyw.

O Dduw, gwna ein calonau
  Yn breswyl teimlad dwys,
A'r hyn a fom yn ofyn
  Gwna di e'n beth o bwys:
Bod gariad yn ein geiriau,
  Taerineb yn ein llef,
A gwylder yn ein hagwedd,
  Gan agor in' y nef.

**21** M. N. 9, 8.

Y dyddiau diweddaf a wawriodd,
  A'r angel a draethodd y drefn;

Yr Iesu ddewisodd ei weision
  I drin ei achosion drachefn.
Mae heddyw yn galw rhai gwaelion,
  A'r doethion yn cilio naill du,
Ond pan ddel ei hunan i Seion,
  Bydd gwae i elynion ei lu. R. E.

## 22 8, 7.

Fe addawodd Brenin nefoedd
  Ga'dd bob gwawd a dirmyg byd,
"Os erlidiwyd fi fel Brenin,
  Gwaeth fydd ar fy neiliaid gyd;
Gwyn eich byd y rhai sy'n ffyddlawn,
  Ac a baro gyda'm gwaith,
Chwi deyrnaswch gyda'ch Brenin
  Am ryw fil o flwyddi maith."

Gwawd y byd 'ry'm yn ei erfyn,
  'Nol addewid Brenin nef;
Pob drwg air gan anghredinwyr
  Gawn am fol'i 'i enw Ef:
Yn ei enw ef y gweddiwn,
  Am ei nerth i fyn'd yn mla'n,
"Concrwyd, concrwyd ein gelynion,"
  Draw yn Seion fydd ein cân. —

## 23 M. N. 7, 6.

Galara llwythau'r ddaear,
  Pan ddelo Mab y Dyn;
Ac am na chredant iddo,
  Hwy brofant ddial blin.

Ond, clywch! gwyn fyd y cyfryw
Fo'n credu'n Iesu cu;
Pan ga y lleill eu poeni,
Cânt hwy eu cipio fry.

**24** M. N. 7, 4.

Mae y deyrnas wedi dod,
Yn ei hadeg,
Heb un diwedd arni fod,
Byth ychwaneg;
Hon a dorwyd megys maen,
Draw o'r mynydd,
Ac a dreigla yn ei blaen,
Dros y gwledydd.

**25** M. N. 8, 7.

Dyma y cyfammod newydd,
Sicrhawyd gan Iesu Grist;
Pawb a'i gwrthyd, ac a'i tora,
'Nydd y farn cânt amser trist:
Duw oedd yn yr hen gyfammod
Gyda'i blant yn foreu iawn,
Gyda'r Iesu caed y newydd,
A'r bendithion ynddo'n llawn.

Daeth yr angel â'r efengyl,
A'r bendithion yn ei dydd,
Dyma'r "amser a'r amseroedd,
"A rhan amser," yn eu rhif:
Yr un angel welodd Ioan
Yn ehedeg yn y nef,

Daeth un arall i'w gyfarfod,
'Ni rhai gwael i gael o'r wledd. —

**26** M. N. 8, 7.

Tegwch bro, llawenydd daear,
Ydyw mynydd Seion draw,
Yno cwrdd y saint â'u gilydd,
Yno Iesu hefyd ddaw;
Ac fe'u dysgir hwy yn nghyfraith,
A gwybodaeth gwir Fab Duw;
Yno rhodiant yn ei lwybrau,
Yno hefyd byddant byw. T. G.

**27** M. N. 6, 8.

Ar ddiwedd dydd yr wyl,
Mewn hwyl y byddo'r Saint,
Yn moli'r Arglwydd eu
Am gael meddiannu'r fraint,
Sef cael mwynhad tra ar ein taith,
O'i bur Ddyddanydd yn ei waith. J. R.

**28** M. H.

I fynydd Seion, O fy mhlant,
Eich dygaf oddi yma i bant,
I gyd-fwynhau'r ddedwyddol wlad,
Ordeiniwyd i chwi gan eich Tad. E. E.

**29** M. N. 8, 7.

Mae baneran'r nef yn chwarae,
Hedeg mae'r efengyl hon;
Rhaid i'r Iesu mwy deyrnasu
Dros derfynau'r ddaear gron:

Gwael yw gweled llwythau Israel,
  Dim ond hyny wrth ei draed;
Rhaid cael tyrfa mwy lliosog
  I glodfori'r dwyfol waed. J. T.

## 30 M. N. 11au.

Gwir gariad mewn undeb, a chariad mewn gwres,
Sy'n gariad a bery, gwna byth, er ein lles;
A chariad at frodyr, a gweision ein Duw,
Sy'n gariad a bery i'r Saint tra b'ont byw.
M. J—S.

## 31 M. N. 7, 6.

Cydunwn, deulu Seion,
  Bob un i foli Duw;
Ei Ysbryd Glân rydd ini,
  'Nol ei addewid wiw;
Bendithiwyd y prophwydi
  A'r patriarchiaid cu,
A'r apostolion ffyddlon
  Fu'n ddiwyd gyda'r llu.

Bendithiwyd yr hen deidiau
  Mewn llawer dull a modd,
Trwy freuddwyd, gweledigaeth,
  A'r hoff brophwydawl rodd,
Trwy weinidogaeth engyl,
  A thrwy ei lais ei hun,
A thrwy yr iechydwriaeth
  Gaed rhag clefydau blin.

Bendithiwyd trwy'r tafodau,
A thrwy'r cyfieithad cu,
A thrwy yr offeiriadaeth
A ddaeth o'r nefoedd fry;
O, canwn haleliwia,
O fawl i'n Harglwydd mawr,
Am yr amrywiol ddoniau
A ddaeth o'r nef i lawr. J. R.

## 32 M. N. 8, 7.

Hyfryd cwrdd un waith yn rhagor,
Er cael cynghor ar y daith,
Pa fodd rhaid i ni weithredu,
Gweision Iesu, yn y gwaith;
Gwaith yw hwn sydd raid ei orphen,
Er cyflawni dyben Duw;
O, am ymdrech yn y gorchwyl,
Frodyr anwyl, tra f'om byw.

Yn freninoedd ac offeiriaid
Fe a'n gwneir ar Seion fryn,
Os gwnawn yma ond ymdrechu
Gario'r genadwri hyn;
Cawn pryd hyny heirdd goronau
Ar ein penau, am ein gwaith,
A theyrnasu gyda'n Iesu
Am ryw fil o flwyddi maith. I. R.

## 33 M. H.

Mae ufyddhau i eiriau Crist,
Yn symud ffwrdd bob trallod trist,

A'r Ysbryd Glân rydd ryfedd fraint,
Sef dwyn tystiolaeth i'r holl Saint. M. J.

## 34 M. N. 8, 7.

Anwyl frodyr a chwiorydd,
Cawsom etto newydd fraint
I ymgasglu at ein gilydd,
Er cael cynnal ein cwrdd saint;
Yma cawn ni ddwys gynghorion,
Gan y gweision, er llesâd,
Yma cawn ni o'r bendithion
A ddanfonir gan ein Tad.

Yma cawn ni brophwydoliaeth,
Dawn gwybodaeth oddi fry,
A llefaru â thafodiaith,
'Rhon gyfieithir oll i ni;
Yma cawn ni bêr ganiadau,
Adeiladaeth i ni bydd;
Pob rhyw ddawn a gawn yn ddiau,
Duw o'i ras o'r nef a'u rhydd. I. R.

## 35 M. N.

O, dewch yn lluoedd llon,
Holl gyrau'r ddaear gron,
I Seion wiw,
Gwir ddinas Duw yw hon:
Mae Ef yn galw'i eiddo gwiw
O fysg pob iaith o ddynol ryw,
Y gwreng a'r bonedd hefyd,
I'r hyfryd wlad i fyw. J. R.

## 36 M. N. 8, 7.

O, mor hyfryd gweled brodyr
A chwiorydd yn gytun,
'N myn'd i Seion gyda'u gilydd
I ddyrchafu Mab y dyn;
Gwell yw gwneuthur brys i fyned,
Yn lle aros yn rhy faith,
Ar fy siwrnai mae fy meddwl,
Buan gwelaf ben fy nhaith. M. J—S.

## 37 M: S.

Ein Iesu âd ei drigfa wiw,
At ddynol-ryw y dychwel;
Ac ni gawn wledda gydag ef,
Bob un yn Seion dawel.

Daw'r pererinion sy'n y bedd
I'r làn mewn hedd bryd hyny,
I gael mwynhau'r orphwysfa dêr,
Mewn pleser, fel un teulu.

Pawb oll mewn unol fawl
Yn canmawl y Gwaredydd,
Am ei drugaredd rhyfedd râd
I'r rhai fu'n ngwlad y cystudd. J. R.

## 38 M. S. D.

Er i ni golli'r ddelw wiw
Fel dynol-ryw yn Adda,
Daeth Iesu Grist i lawr o'r nen
I Fethlehem Euphrata,

Er mwyn ein codi yn ddiffael
O gyflwr gwael marwoldeb,
A'n dwyn yn dêr i gyd yn ol
I'w fythol bresennoldeb. J. R.

**39** M. N. 7au.

Ni gawn fyned maes o law
I'r hyfrydol dir sydd draw;
Canwn i'n Gwaredwr cu,
A wnaeth drefnu'r ffordd i ni.

Pan ddaw'r Iesu lawr rhyw ddydd,
Gyda'i anwyl Saint y bydd;
Dyna'r pryd y cawn heb drai
Bob danteithion i'w mwynhau. M. J--S.

**40** M. N. 8, 7.

Fe ddadguddiodd Duw'r efengyl
Welodd Ioan yn y nef;
Pawb a gredo ei phregethiad
A gaiff drysor ganddo ef;
Caiff fwynhau y doniau hyfryd
'Nol ewyllys Duw ei hun,
Pawb i fedydd ufyddhäo,
Gaiff y rhain, medd Mab y dyn.

Yr efengyl sydd yn allu
Duw, er iechydwriaeth dyn;
Pawb dderbynio'r trysor hwnw
Gaiff wybodaeth iddo'i hun;
'R Ysbryd Glân sy'n tystiolaethu
Fod y Saint yn blant i Dduw,

A'r arwyddion sydd yn canlyn,
'Nol fel d'wedodd Iesu gwiw. T. B.

41 M. S.

Mae'n wir y gwywa llysiau'r haf,
A'r blodau braf a syrthiant;
Ond geiriau Duw a saif mewn bri,
Hwynt-hwy byth ni ddarfyddant.

Er fod y dail yn syrthio lawr,
A'r mawrion goed yn crino,
A phob rhyw degwch sy'n y byd
O hyd yn myned heibio.

Er hyn i gyd, mae Duw yr un,
Heb derfyn i'w fodoliaeth,
Na chyfnewidiad byth i fod,
Na chysgod tröedigaeth. J. R.

42 M. H.

O, canwn fawl soniarus mwy
I'r Hwn fu farw ar y pren;
Fe ddaeth i ni, do, fywyd trwy
Farwolaeth Iesu Grist, ein Pen.

Er fod yr hoelion llymion trwy
Ei draed a'i ddwylaw ar y pren,
Ac yn ei ystlys ddirfawr loes,
Un gair yn groes ni ddaeth o'i ben.

Cyflawnwyd gair y prophwyd cu,
Gan Iesu ar y groes bryd hyn;
Dadganwn ninnau ddyddiau'n hoes,
Am ingawl loes Calfaria fryn. J. R.

**43** M. N. 8, 7.

O, fy mrodyr a chwiorydd,
Nid yw'n hamser yma'n hir,
Cawn fyn'd ymaith yn dra buan,
I fwynhau'r dedwyddol dir;
Gweled gawn ein Prynwr anwyl,
A fu'n dyoddef drosom ni,
'Rhwn a hoeliwyd draed a dwylaw
Ar y groes, ar Galfari. M. J—S.

**44** M. S.

Fel milwyr dewrion awn yn mlaen,
Trwy'r cyfan i'r wlad odiaeth;
Gwir edyn cariad, breichiau ffydd,
A ddwg in' fuddugoliaeth.

O, awn yn mlaen er gwaetha'r llu,
Sy'n methu ein dyfetha;
Mae Duw yn Dad, a Christ yn Frawd,
I wyr y gatrawd yma. J. R

**45** M. N. 11au.

Mawrygwn ein breintiau, O frodyr cytun;
A chanwn ganiadau yn llawen bob un:
Mae'n hyfryd i deithio mewn undeb a hedd
Ar hyd yr anialwch i Seion a'i gwledd.

Er cymmaint y croesau sydd i ni yn awr,
O na ddigalonwn—mae'r wobr yn fawr;
Cyfodwn ein penau, ymwared sydd draw—
Ein gyrfa ddiweddir mewn hedd maes o law.

Tywyllir yr haulwen, y lleuad, a'r sêr,—
Ysgydwir holl nerthoedd y nefoedd, gan Nêr,
Ond hyn fydd yn arwydd i'r ffyddlon trwy'r byd,
Mai buan daw'r Arglwydd i'w casglu ynghyd.

Mor hoff ydyw meddwl am fyw yn ddiboen,
Mewn gwlad heb ddim blinder, yn ngwydd fod yr Oen:
Mae'r *meddwl* yn hyfryd, ond gwell yw'r *mwynhad*,
Mil gwell ydyw'r *meddiant*, nâ'r *son* am y wlad.

Os cymmaint yw'r gwynfyd, beth ddylem ni fod?
Ai diwyd ai diog, i gyrhaedd y nod?
Ymdrechwn yn wrol—mae Duw yn rhoi nerth—
Os ffyddlon ymdrechwn, try'r ymdrech yn werth. *

**46** M. N. 8, 7, 3.

Y mae cofio angeu'r Cyfiawn
Yn fy nerthu ar fy nhaith;
Pâr im' adnewyddol fywyd,
Nerth ac iechyd yn y gwaith;
Holed dyn ef ei hun,
A swpered yn gytun. J. R.

**47** M. N. 8, 7.

O, mor hyfryd fydd yn Seion,
Wedi dyfod Mab y dyn,

Pawb yn canu pur anthemau
  Yno'n wresog a chytun,
Oll yn rhodio mewn heirdd wisgoedd,
  Yn mhlith engyl gwynfa fry,
A dyscleiria Crist ei hunan
  Mewn gogoniant gyda'r llu. M. J.

**48** M. H.

Cymmanfa etto ddaeth i'n rhan,
I'r Saint ymgasglu i'r un man;
Boed pawb â'u genau'n llawn o glod,
I foli Duw'n well nag erioed.

Mae cwrdd fel hyn 'nol cynghor Duw,
Yn nerth i bawb i dduwiol fyw;
Ac ynom rhoddir dwyfol dân,
I'n cymhell gyda'r gwaith yn mlaen. *

**49** M. N. 8, 7.

Amgylchiadau sydd yn galw,
  I ymadael etto'n wir,
Mewn llawn obaith y cydgwrddwn
  Ar ben Seion cyn bo hir;
Yno cawn ni gyd-deyrnasu
  Gyda'r Iesu cu, ein Pen;
Brysio, brysio wnelo'r amser,
  Yw'm dymuniad taer. Amen. T. H.

**50** M. N. 8, 7, 4.

Dyma foreu Sabboth hyfryd,
  Roddwyd ini îs y nen;

O, am Ysbryd yr addewid,
Idd ei dreulio oll i ben
Yn ngwasanaeth, &c.,
Brenin y breninoedd oll. J. R.

51 M. N. 8, 7.

Dyma deyrnas a swyddogion,
O osodiad Iesu gwiw,
Dyma'r deyrnas a ddechreuodd
Yn yr oes ag ym yn byw;
Dyma'r deyrnas welodd Daniel
Wedi dechreu yn ei phryd,
Dyma'r deyrnas a faluria
Holl deyrnasoedd maith y byd. A. E.

52 M. N. 7, 6.

Gwyn fyd y rhai yn Iesu
A hunant yn y bedd,
Can's etto hwy gyfodir
Mewn gogoneddus wedd:
Pan gano yr archangel
Ei udgorn yn y nen,
Cydgesglir yr anwyliaid
I gwrddid fry â'u Pen.

Rhyw liaws mawr o'r blaenffrwyth
A brynodd Duw o'r byd—
Y cyfryw nas halogwyd—
Esgynant oll yn nghyd;
A'r byw fydd ar y ddaear
Yn adwaen Iesu cu,

Mewn moment a newidir—
  A gipir gyda'r llu.
Ond gwae y rhai adewir
  I aros ar y llawr,
Rhyw dristwch leinw'u calon—
  Eu galar fydd yn fawr;
Yr Arglwydd fry a'i fyrddiwn
  A welant yn nesâu,
A fflamau tanllyd ganddo
  I boeni'r anwir rai. *

**53** M. N. 12, 11.

Ysbryd yr Arglwydd fel tân sydd yn llosgi,
  Y dyddiau diweddaf a wawriodd i ni;
Yr Arglwydd anfonodd, o wlad y goleuni,
  'R efengyl drag'wyddol, a'i dawn gyda hi.
Cafwyd gwirionedd yn mynydd Cumorah,—
  Daw bechgyn y goedwig i dderbyn y ddysg;
Ac wedi eu gwareiddio, ar dir California,
  Hedd a llawenydd sydd mwy yn eu mysg.

R. E.

**54** M. N. 8, 7.

Rhaid ymadael o'n cyfarfod,
  Er mor felys ydyw ef,
Ond diolchwn i'n Tad nefol,
  Am roi'r Ysbryd lawr o'r nef;
Pan gawn etto gyd gyfarfod,
  Gweddiwn am yr Ysbryd Glân,
Yn ei ddoniau tra rhagorol,
  Er ein tywys yn y bla'n. T. H.

**55** M. N. 8, 7.

Amryw ddoniau trwy'r un Ysbryd,
  Duw addawodd yn ddiffael;
I'n Tad nefol bo ni'n diolch,
  Bod y doniau wedi'u cael.
Trwy'r un Ysbryd fe wneir gwyrthiau,
  A phrophwydo gyda hyn,
Y tafodau a'r cyfieithad,
  Eglwys Dduw sydd 'nawr mewn grym.

Cas fydd gan y byd am danoch,—
  D'wedodd Iesu hyn ei hun;
Y gwrthodwyr fydd y rhei'ny,
  Na chânt brofi byth o'r rhîn.
Mae'r Gehena'n ddigon eang,
  Cânt eu poeni am eu gwaith;
Hwy gânt fedi ffrwyth eu bywyd
  Yn y tragwyddoldeb maith. —

**56** M. N. 8, 7.

Frodyr anwyl, a chwiorydd,
  Dyma grefydd Iesu Grist,
Wedi ei danfon i dylodion,
  Pwy a ddichon fod yn drist?
Dyma 'r ysbryd a addawwyd,
  Dyma wynfyd mawr ei werth,
Mae y doniau dan eu henwau,
  Gyda ninnau yn eu nerth. —

**57** M. N. 8, 7.

Dyma Sabboth wedi'i dreulio
  Genym etto ar ein taith,

Pwy a ddygwyd i adnabod
  Ffordd y cymmod yn ei waith?
Pwy a gafodd adnabyddiaeth,
  Sef tystiolaeth gadarn gref,
Gwir fwynhad o'r anwyl ernes
  A addawodd Brenin nef? J. R.

## 58 M. S.

Dydd gorphwys etto i ni ddaeth
  Oddiwrth ein gwaith naturiol;
Clodforwn Dduw mewn hyder ffydd,
  Tra paro'r dydd rhagorol. J. R.

## 59 M. N. 9, 8.

Mi wn fod efengyl yr Iesu,
  Yn cael ei phregethu i'r byd;
Fe wawriodd y dyddiau diweddaf,
  Mae Duw'n myn'd i gasglu ynghyd:
Am hyny cofleidiwch athrawiaeth
  Sy'n berffaith, fel rhoddwyd gan Dduw,
Yn ufydd dewch idd ei hammodau,
  Mae'n well na thrysorau Peru.

Mae'n drysor i'r enaid anfarwol,
  Rhydd fywyd trag'wyddol i'r oll
A wnelo fel dywed y deddfau,
  Heb fyned i lwybrau y coll;
Hwy hefyd a gânt gyd-deyrnasu
  A'n Iesu, ein Brenin a'n Pen,
A hyny dros fil-flwydd yn gyfan,
  Pan rwymir hen satan a'i sen. —

## 60 M. N. 8, 7.

Dringaf drwy yr erlidigaeth,
  Fry mae'r Brenin yn fy ngwadd;
Er creuloned fy ngelynion,
  Nid wyf etto wedi'm lladd.
Nad pa rwystrau sy ar fy llwybr,
  Nid yn ol bydd byth fy nhaith;
Nid gwiw gwaed ond er tystiolaeth,
  Ennill, ond yr un peth chwaith.

Gwir fod rhagfarn yn llabyddio,
  Gwir fod byd yn edrych draw;
Etto pe baent oll yn uno,
  Sant nid byth yn ol a ddaw.
Pe bai mil am un o honynt,
  Pe bai'r rhwystrau fyrdd am un,
Etto ar alwadau'r Brenin,
  Myn'd yn mlaen wna'r Sant ei hun.

Geilw'r byd ar dde ac aswy,
  'Mod i'n ynfyd, 'mod i'n ffol;
Geilw pechod arna'i sefyll,
  Geilw uffern arnai'n ol:
Geilw'r gelyn am ei athrod—
  Galwed ef, ac am ei dân!
Tra bo Brenin nef yn galw,
  Rhaid i'r sant yw myn'd yn mla'n. —

## 61 M. H.

Paham tristawn am farw'r Saint?
Dros ennyd fychan 'madael maent;

Cânt etto ddod o'u beddau'n fyw,
Teyrnasant byth yn nheyrnas Dduw. J. T.

## 62 M. C.

Pa'm wylwn am ein brodyr hoff,
A'n gadant ni ar ol?
'Dyw'r oll ond llais ein Ceidwad mwyn
Yn galw'i saint i'w gol.

Ai nid y'm ninnau'n myn'd yn glau—
Yn myn'd o awr i awr?
Ond pwy ddymuna oriau hir
Wrth fyn'd at Iesu mawr?

Pa ddychryn sydd yn llanw'n bron
Wrth hebrwng brawd i'r bedd?
Gorweddodd Crist ei hun o'i fewn,
Gan adael arogl hedd.

Bendithiodd ef holl feddau'i saint,
Esmwythodd galed bren;
P'le gorwedd yr aelodau gwyw
Ond gyda'u marwol Ben?

Oddiyno cododd ef i'r lân,
Gan ddangos ffordd i ni;
I'r lân awn ninnau oll at Grist,
Pan ddaw ar gwmwl fry.

Yr udgorn olaf swnio'n glau,
Nes deffro'n ceraint cu;
Dihunwch! bobloedd dan y llawr;
Chwi Saint, esgynwch fry! *

## 63 M. H.

Am deyrnas Iesu boed ein llef,
Yr hon yn wir a drefnodd Ef,
I gadw'r byd i gyd o'r bron,
Os credant yr efengyl hon.

'R arwyddion hyn, medd Brenin nef,
Ganlynant ei efengyl Ef;
I'r hwn a gredo, gallu rhydd
I wir gyflawni rhai'n trwy ffydd.

Yn enw'r Iesu yn ddiau,
Mae'n rhaid i bob peth ufyddhau;
Pob rhyw awdurdod ganddo sy
Ar wyneb dae'r a'r nefoedd fry.

Tystiolaeth bur yr Ysbryd Glân
Sydd i gyd-fyn'd â hon yn mlaen;
Rhaid i'r cenedloedd 'nawr i gyd,
Gael cynnyg ar Waredwr byd. E. M.

## 64 M. N. 8, 7.

Dyma gyfle newydd ini
  Ddweyd yn dda am Iesu mawr,
Y daioni dderbyniasom
  Ganddo yma ar y llawr,
Trwy gael clywed ei efengyl,
  'Rhon a ddeilliodd lawr o'r nef,
'Rhon yn ddiau a bregethir
  Gan ei anwyl weision Ef.

Cael ein dwyn o dir estronol,
  Yn wir bobl iddo ef,

Trwy ufydd-dod i'r cyfreithiau
A osododd Brenin nef;
Cawsom felly'n mabwysiadu
Idd ei deulu anwyl mâd,
Ac i ryddid ein hadferyd,
Ac i dd'wedyd Abba, Dad.

Bellach molaf, pa'm y tawaf?
Oni dd'wedaf, Da yw Duw?
Rhoes ei anwyl Fab i farw,
Fel y caffem ninnau fyw;
Rhoddes hefyd ei lân Ysbryd,
Er ein harwain yn y blaen;
Arglwydd, dyro, 'rwy'n dymuno,
I ni etto'th nefol dân. E. M.

## 65 M. N. 8, 7.

O, mor hyfryd gweled brodyr
A chwiorydd yn eu lle,
Gwedi casglu er gwas'naethu,
Ac addoli Brenin nef;
I fynegu ei rinweddau,
Deisyf doniau'r Ysbryd Glân,—
Pawb yn moli a chydganu,
'N penderfynu myn'd yn mlaen.

Awn yn mlaen fel llu banerog,
Megys arfog deulu'r ffydd,
Nes yn hollol lwyr orchfygu
Teulu'r fall, a chario'r dydd,
Nes cyrhaeddyd mynydd Seion,
Dinas gawsom gan ein Tad,

Mewn addewid, lle o wynfyd,
  Hefyd gwaredigaeth rad.

Yno'n llawn y cawn ddyddanwch,
  Heddwch hefyd sy'n y lle;
Gyda'r Iesu cawn deyrnasu,
  Ac yn mhlith ei weision E',
Gwedi derbyn gwir ymwared
  O gaethiwed Babel dir;
Gwawria, gwawria hyfryd foreu,
  Am dy weled 'rwyf yn wir. E. M.

## 66 M. H.

Diolchwn beunydd am y fraint,
O gael ymuno gyda'r Saint;
O, Dduw, rho nerth i fyn'd yn mlaen,
Nes cyrhaedd Seion fawr a mân.
    'Ry'm yn dystion fod angylion
    Wedi'u danfon i blith dynion,
    I oleuo'r holl drigolion;
    Haleliwia, haleliwia. Amen. D. D.

## 67 M. N.

  Taer ydyw galwad Duw,
  Ar bawb o ddynol-ryw,
I ddod i'r wledd mae yn bar'toi;
  Danfona weision lu
  I wahodd pawb i'w dŷ,
A phobloedd lawer sy'n crynhoi;
  Ge'y dynion gibau gweigion,
    Gwell danteithion sy'n eu bryd;

Gwelant, bellach, mai rhyw sothach
Sydd ar fwrddau gwael y byd:
'Nol eistedd yno cy'd,
Am ymborth gwell maent 'nawr yn ffoi!
W. P.

## 68 M. N. 8, 7.

Hoff gan natur yw galaru,
Mawr yw teimlad ceraint cu;
Pan hebryngir brawd i'r beddrod,
Wylir—pwy i'w feio sy?
Gellir wylo, ond gwell cofio
Mai gwyn fyd y meirw'n Nghrist—
Mai anaddas yw galaru
Ar ol un na fydd yn drist!

Ceisied dynion rym duwioldeb,
Grym a geidw alar ffwrdd—
Grym a rodda sicrwydd hyfryd,
Fod rhyw ddydd i bawb gyd gwrdd:
Dyna orchwyl gwell nag wylo
Ar ol plant sy'n myn'd i dre',
Gorchwyl ddwg pob un a'i gwnelo
Adref i'r un hyfryd le. *

## 69 M. N. 12au.

Er cymaint yw'r curo sydd gyda phob enwad,
Ni raid i ni flino,—fel hyn gwnaed a'n Ceidwad;
Goddefodd bob dirmyg, ac felly gwnawn ninnau,
A goddef yn ddiddig, fel darfu 'ddo yntau.

Dywedodd y byddai i ninnau gael felly,
Am hyny ymdrechwn, na roddwn i fyny,
Nes cyrhaedd i Seion, lle ca'r Saint ymwared
Pryd ni ddaw gelynion byth mwy i wneyd niwed.

## 70 M. N. 7, 4.

Wele, mor ddymunol yw
Cariad brawdol;
Undeb anwyl meibion Duw,
Sy'n rhagorol:
Arwydd yw ein bod yn Saint
I'r Goruchaf;
Canwn ninnau am y fraint,
Haleliwia.

## 71 M. N.

Dewch gyda mi; dewch gyda mi;
Chwi, seintiau Duw, dewch gyda mi;
Yr amser ddaeth, a myn'd sydd well,
Lle dywed Duw, i wlad sy'n mhell;
Na foed in' aros yma'n hwy—
Mae'r dial mawr bob awr yn fwy:
Dirmygir offeiriadaeth Duw!
Ac yma nid yw'n tref i fyw.
Dewch, codwn; ymaith awn heb fraw,
A chwiliwn am ein gartref draw;
Dewch gyda mi.

## 72 M. N.

Y Duw addola ereill,
Nid yw yn Dduw i mi,
Ni fedda gorff na rhanau,
Ni chlyw, ni wel nyni;
Ond y mae genyf Dduw sydd fry,
Sef Duw galluog, Duw sy'n gu,
A Duw sy'n rhoi dadguddiad,—
O, dyna'r Duw i mi!
O, dyna'r Duw i mi!
O, dyna'r Duw i mi!

Pob eglwys heb apostol,
Nid eglwys yw i mi,
Mae fel rhyw long heb hwyliau
Yn nofio ar y lli';
Ond eglwys d'wysir îs y nen
Gan ddeuddeg seren gylch ei phen,
Ac eglwys dda ei sylfaen,—
O, dyna'm heglwys i! &c., &c.

Pob eglwys heb un prophwyd,
Nid eglwys yw i mi,
'Does ganddi ben i'w harwain,
Mae'n gwyro ar bob tu;
Ond eglwys nid o drefniad dyn,
Yr hon osododd Duw ei hun,
Sef eglwys â'r "arwyddion,"—
O, dyna'm heglwys i! &c., &c.

Y gobaith fedd Cenedloedd,
Nid gobaith yw i mi,

Heb ffydd ac heb wybodaeth,
Nid yw ond t'wyllwch du;
Ond gobaith ddeil tra'r ddae'r a'r nen,
Ac un a wel tufewn i'r llen,
'Rhwn obaith sydd fel angor,—
O, dyna'm gobaith i! &c., &c.

Y nefoedd fyn sectariaid,
Nid nefoedd yw i mi,
Mae hòno'n rhy anhysbys,
Mewn gwagle rhywle fry;
Ond nefoedd ar y ddaear hon,
Y gartref lle y sugnais fron,
Nef oleu, nef gwybodaeth,—
O, dyna'm nefoedd i! &c., &c.

Pob eglwys heb gydgasgliad,
Nid eglwys yw i mi,
Ni wnelai yr Iachawdwr
Fyth arddel un fel hi;
Ond eglwys wedi'i galw maes
O'r byd a'i draddodiadau cas,
Ac eglwys cydgynnulliad,—
O, dyna'm heglwys i! &c., &c. *

## 73 M. N.

Yn iach! i bawb yn awr;
Gwnawn forio'r eigion mawr,
Mewn hiraeth llawn am Seion Duw;
Can's gwell yw myn'd i'r wlad
Rowd ini gan ein Tad;
Rhy hir, yn gaeth, y buom fyw.

Daeth in' ryddid, 'nol hir flinfyd,
Galwyd ni o Babel ma's;
Wrth yr alwad, myn'd yw'n bwriad—
Myn'd er gwaetha'r gelyn cas:
Ein Duw, o'i ddirfawr râs,
A'n dwg ni'n glud i'w Seion wiw.

Yn iach! Brydeinig dir,
Ein gartref amser hir,
Mae gartref gwell o'n blaen yn awr;
Caledi, ing, a thrais,
Sydd yma yn barhaus,
Ond gwynfyd hwnt i'r cefnfor mawr.
Pwy sy'n foddlon dod i Seion?
Lle o lwyr ymwared yw
Rhag y pläau a'r gofidiau
Ddaw i flino dynol-ryw;
Mae'n ddiogel fan i fyw
Pan fyddo'r ddrycin dros y llawr.

Gwnawn hefyd ganu'n iach
I'r Saint, dros enyd fach,
Nes cawn eu gweled oll yn nhref:
Ein ffarwel sydd yn hir
I'r sawl sy'n gwadu'r gwir,
Can's nid ynt hwy o deulu'r Nef.
Awn dan ganu dros y weilgi,
Heb un ofn dan ein bron;
Duw o'i fwynder wylia'n llester
Pan yn marchog ar y dòn;
A'r Saint trwy'r ynys hon,
F'o hefyd dan ei ofal Ef.

**74** M. H.

O deuwch allan 'nawr, medd Duw,
O Babilon i Seion wiw;
Gwnewch ddod ar frys o honi hi,
Mae'i phläau mawr yn hongian fry.

O dewch i Seion, bobl Dduw,
I'ch cadw rhag y llid yn fyw;
Eich Duw a'ch geilw 'nawr mewn pryd,
O, blant, ymgesglwch yno'n nghyd. *

**75** M. N. 8, 7, 4.

Arglwydd, galw i dy winllan
Fwy o weision at dy waith,
Mawr yw'r llafur sydd i'w fedi
Yn yr addfed feusydd maith;
Mae yn dymmor
Casglu'r gwenith oll i dref.

Rho i'th weision nerth dy Ysbryd,
Rho grymanau gloywon llym,
Fel y medont ffrwyth i'r Iesu,
O law'r diafol, er ei rym;
Gwrando, Arglwydd,
Pan y gwaeddwn am dy nerth. *

**76** M. N. 11au.

Pan wawriodd y boreu—pan dorodd y dydd,
Ca'dd Joseph efengyl ddwg gaethion yn rhydd;
Gor'chwyliaeth y dyddiau diweddaf ga'dd ef;
Gan Iesu mae'n anwyl, a'i drigfa'n y nef.

M. R.

## 77 M. C.

Ewch i'r holl fyd, medd Iesu Grist,
  With bob creadur byw
Pregethwch yr efengyl hon,
  Drwy wir ddylanwad Duw.

A'r sawl a gredo ynof fi,
  Gwnewch ei fedyddio ef,
Cadwedig fydd yn nydd y farn,
  Drwy gredu geiriau'r nef.

A'r sawl ni chred, condemnir ef
  Am beidio ceisio Duw;
'R arwyddion hyn a ganlyn bawb
  A gred yn Iesu gwiw.

Cythreuliaid bwriant o bob rhyw,
  Seirff godant ymaith mwy,
Llefaru â thafodau wnant,
  Fel yr arweinir hwy.

Ac ar y cleifion rho'nt ddwy law,
  Yn iach y gwneir, heb boen
O hyn i maes, medd geiriau pur
  Y gwir addfwynaf Oen.

Os yfant ddim fo'n farwol, ni
  Wna niwed iddynt hwy:
Am hyny, pwy ni ufyddha,
  Heb aros mynyd mwy.

## 78 M. N. 8, 7.

Yr efengyl a ddadguddia
  Holl gyfiawnder Duw trwy ffydd,

Pawb a'i credo ddaw trwy fedydd
O'i gaethiwed mawr yn rhydd;
Yna cânt o ddawn yr Ysbryd,
Idd eu dysgu'n ffyrdd y nef,
Nes o'r diwedd gallont sefyll
Yn ei bresennoldeb Ef. T. B.

**79** M. N. 7au.

Daeth yr awr i feibion Duw,
Awr eu buddugoliaeth yw;
T'wynodd gwawl yr hyfryd ddydd—
Myrdd o'i rhwymau ddaw yn rhydd.
J. T.

**80** M. N. 8au.

Duw anfonodd Oen ei fynwes,
Idd ein daear i wneyd teyrnas,
Ac i fod yn Frenin ffyddlon,
Nes daw'r Saint i fynydd Seion.

Gwyliwch, Gymry, ar eich camrau,—
Ni roes Duw amrywiol lwybrau,
Ond un unig lwybr union,
Tua santaidd fynydd Seion.

Rhaid yw dod trwy'r drws i'r deyrnas,
Fel y dysgwyd Nicodemus;
Felly 'nawr, 'run fath yn union,
Rhaid i'r sawl gânt feddu Seion.

Llwybr cul iawn ydyw, coeliwch,
Nid yw'n myned fel y mynwch;
Gwarchau mynych gwych orch'mynion,
Arwain Saint i fynydd Seion.

Pan roir gwyr i redeg gyrfa,
Hwy wnant gamu am y cynta'—
Pawb am gyrhaedd ei wych goron;
Felly'r sawl gânt feddu Seion.

Llew ac ych y gwellt a borant,
Blaidd ac oen a gyd orweddant,
Heb amryson mewn un galon,
Yn holl santaidd fynydd Seion.

'Rwyf yn erfyn cael teyrnasu
Gyda Christ am fil o flwyddi,
Yn mhlith teulu'r apostolion,
A'r cyn-saint, ar fynydd Seion.

Yno bydd y saint mor ddedwydd,
Rhwng y ffigys goed a'r gwinwydd,
Yn mwynhau o addewidion
Teyrnas Dduw ar fynydd Seion. J. W.

**81** M. C.

Pan ddelo'r Saint oll adre'n nghyd
I Seion, hyfryd wlad,
O blith gelynion sydd bob cam
Yn gwaeddu am eu gwaed;

A dod o blith erlidiau blin,
A threchu'r gelyn câs,
A'u holl fyddinoedd o bob rhyw,
Trwy rym ein Duw a'i râs;—

Ceir yno glywed sain pob sant
Yn eilio moliant maith,
I'r Iesu ar ei orsedd wen,
'Nol cyrhaedd pen y daith. J. W.

## 82 M. N.

Rhyw foroedd didrai o gariad sy'n Iesu,
Wna'r byd lawenhau, ond iddynt i gredu,
Ac edifarhau am bob drwg o wnaethant,
A chael eu bedyddio â bedydd maddeuant:
Trwy osod dwylaw, cânt dderbyn yr Ysbryd;
Wel, dyma y cynllun er achub yr holl fyd.

I. R.

## 83 M. N. 7, 6.

Fe wawriodd hyfryd foreu,
Pan ddaeth 'r efengyl hon,
Gan angel o'r wlad nefol,
I barthau'r ddaear gron;
Cyflwynwyd hi i Joseph,
'R hwn oedd yn brophwyd mawr,
I'w thraethu i'r cenedloedd,
Cyn delo'r farn i lawr. M. R.

## 84 M. N. 12, 11.

Ust! clywch air yr Arglwydd o'i santaidd breswylfod,
Gwrandewch ei leferydd yn ufydd yn awr;
Trwy'ch claddu mewn dwfr, maddeuir eich pechod,
A disgyn yr Ysbryd, i'ch lloni, i lawr;
Cewch hefyd ddiangfa rhag pläau echryslon
Sy'n dod ar anwiriaid a beilchion y byd,
Am wrthod gwirionedd gan Dduw a'i holl weision—
Daw amser a wiria y geiriau i gyd.

Efengyl tangnefedd sydd yn ymddyscleirio
Dros faith eang foroedd a lleoedd y llawr;
Y faniar ardderchog a godwyd, mae'n chwifio;
Arwydd-nod Duw'r nefoedd sy'n gwahodd yn awr
I Seion, wlad santaidd, i fod mewn hyfrydwch
Am fil o flynyddoedd, heb wawd nac un sèn;
Yr Iesu fydd Frenin, teyrnasa mewn heddwch,
I Dduw bo'r gogoniant a'r moliant. Amen.

J. W.

85 M. N. 7, 6.

Mor hyfryd yw cyfarfod
A brodyr yn gytun,
Yn derbyn doniau'r Ysbryd,
Fel d'wedodd Mab y dyn:
Y gweision sy'n wisgedig
A dwyfol Ysbryd Crist,
A'r Saint dderbyniant trwyddynt
Ddysgeidiaeth nef i'w clust. M. J.

86 M. H.

Fel dyddiau Noah, felly 'nawr;
Gwrandewch ar lais yr Arglwydd Dduw,
Gwahodd y mae dros ddaear lawr,
Trwy enau'i weision, ddynol ryw.

'R efengyl hon, ddywedodd Crist,
Bregethir am ei deyrnas ef,
I'r holl genedloedd bydd yn dyst,
Cyn ail ddyfodiad Brenin nef. J. W.

**87** M. N. 8, 7.

Pan yn cofio am farwolaeth
 Ddaeth â bywyd yn ei lle,
Na foed dagrau ar ein gruddiau,
 Can's llawenydd sy'n y ne';
Os yw'r bara'n dweyd am ddryllio,
 Os gwna'r cwpan ddangos gwa'd,
Dengys geiriau Crist y neithior
 Sydd i fod yn nhŷ ei Dad.

Pwy gymmera yn annheilwng
 O elfenau'r ordinhad?
Pwy all fod heb garu'i frodyr,
 Os yw'n caru'r Iesu mâd:
Pwy fyn droi y ffiol fendith
 Yn felldithiol iddo'i hun?
Gwell yw cyfranogi'n onest,
 'Nol gorchymyn Mab y dyn.

**88** M. N. 8, 7.

Deuwch, holl drigolion daear,
 Ac i fedydd ufyddhewch,
Crëwch ffydd ac edifeirwch,
 A maddeuant Duw a gewch;
Yna trwy arddodiad dwylaw,
 Chwi a gewch yr Ysbryd Glân,
Hwn i fywyd a'ch tywysa,
 Ac a'ch arwain yn y blaen. T. B.

**89** M. N. 7, 6.

Ca'r Saint am bob gorthrymder,
 Addfwynder cyn bo hir;

Mwynhant o addewidion
  Ei Duw ar Seion dir;
Yr Arglwydd Dduw â'i bläau
  Ddinystria Babel fawr,
A'r Iesu mwyn deyrnasa
  Dros wyneb daear lawr. J. W.

**90** M. H.

Gwaith melys iawn yw moli'r Iôn,
Trwy Ysbryd Duw, mewn hyfryd dôn;
Gwnawn ganu mawl i'n nefol Ben,
Tra cawn breswylio îs y nen. J. W.

**91** M. N. 8, 7, 4.

Daeth efengyl teyrnas nefoedd,
  I'ch gwahodd o Babilon;
Adsain mae yn mhlith cenedloedd,
  Ufyddhewch i alwad hon;
Tua Seion,
  Mae yn gwahodd pawb i ddod. J. W.

**92** M. S.

Moliannus fyddo ein Duw ni,
  Am wrando'n cri a'n gweddi,
Ac am adferu etto 'nol
  Ysbrydol ddoniau ini.

Er i elynion creulon cas
  Lwyr ddifa'r urddas weision,
Tosturiodd Duw wrth ddynol ryw,
  A chododd ail genadon.

Er hyn i gyd, parhau mae'r byd
I wrthod golud gwerthfawr,
Gan wadu Duw, a threfn ei dŷ,
A'u diystyru'n ddirfawr.

Os Duw nid adeilada'r tŷ,
Trwy ranu'r doniau gwyrthiol;
Ofer yn wir llafuria neb,
Er holl ddoethineb ddynol. A. C.

## 93 M. H.

Dy deyrnas di, ein nefol Dad,
A lwyddo'n rhyfedd yn mhob gwlad;
Cynnyddu b'o fel mynydd mawr,
Nes llanwo wyneb daear lawr.

O, boed i genadwri'r nef,
I dynu lawr y cestyll cryf;
Ac adeiladu teyrnas Dduw,
A gwneyd y rhai sy'n farw'n fyw. T. P.

## 94 M. N. 8, 7.

Bydd, O Arglwydd, gyda'th weision
Sydd yn mhedwar cwr y byd,
Cofia am ein brawd yn Llydaw
Aeth i gynnyg trysor drud;
Agor di o'i flaen bob drysau,
Sydd yn nghau rhag dwyfol wir,
A doed miloedd trwy ei ymdrech
I dy eglwys cyn bo hir.

Trwy dy allu a'th ddoethineb,
Arwain, Dduw, dy was o hyd,

Boed yr iaith yn rhwydd i'w thraethu
  Pan yn son am berl mor ddrud;
Casgled lawer o rai onest
  O blith gau grefyddau'r wlad,
Fel y delo llu i Seion
  I'w bendithio gan ei Tad.

## 95 M. N. 8, 7.

Llawer sydd yn gwrthwynebu
  'Rhyn ni wyddant pa beth yw,
Ninnau sydd yn gwir amddiffyn
  'Rhyn a wyddom sydd o Dduw.
O, na chaffai pawb adnabod
  Pa beth ydynt yn y byd,
Fel na fyddont yn y diwedd
  Yn cael profi'r dwyfol lid.

Gwir wybodaeth sydd yn werthfawr,
  Gwybod pwy sydd ini'n Dad;
Gwybod pa fath ysbryd feddwn—
  Un caethiwed neu ryddhad;
O, ymdreched pawb am fywyd,
  I gael rhan yn Iesu Grist,
Cael llawenydd trwy ei Ysbryd
  Yn lle gofid blinfyd trist. J T W.

## 96 M. N. 8, 7, 4.

Arglwydd, disgyn trwy dy Ysbryd,
  Idd ein cynghor yma 'nawr,
Fel y caffom wir ddoethineb
  I ymdrin â'th bethau mawr;

Oddiwrthyt
Y derbyniwn bob rhyw nerth.

O, cyfrana bob gwybodaeth
I dy weision sydd yn nghyd,
Fel deallont dy gyfreithiau,
A'u gweinyddu'n ddoeth i gyd;
Rho dy Ysbryd,
Yna'n ddigon bydd i ni.

**97** M. N. 8, 7.

Arglwydd, 'madael mae dy weision,
Yn ddiolchgar am y fraint
O gael dod ynghyd i drefnu
'Rhyn a berthyn i dy Saint;
Erfyn maent, yn haeddiant Iesu,
Am ddoethineb lawr o'r nef,
Fel bo pob-peth yn cydweithio
I helaethu'i deyrnas Ef.

**98** M. N. 11au.

Ni, frodyr un-galon, sydd yma yn nghyd,
Rhoddasom ufydd-dod i Brynwr y byd;
Am hyn byddwn ffyddlawn, mawrygwn ein braint,
Gan gadw'r ffydd hono a roddwyd i'r Saint.
Er maint sy'n ein herbyn, mae'r Iesu o'n plaid,
Os byddwn yn gwylio a gweddio'n ddibaid,
A thystio yn gadarn tra fyddom ni byw,
Ac yna cawn dderbyn ein gwobr gan Dduw.

T. H.

## 99 M. N. 6, 8.

Yn mlaen, yn mlaen mi af,
Er gwawd a dirmyg byd;
Aeth Iesu o fy mlaen,
Trwy ganol hwn i gyd;
Mae baner nef o'm blaen yn awr,
Yn llaw'm Tywysog cadarn mawr.

Nid Ysbryd llwfrhau
Yw Ysbryd pur ein Duw,
Gorchfyga hwnw'r byd,
Tystiolaeth Iesu yw;
Yn nghanol rhwystrau ni lesgâ—
Ein tywys oll i'r nef a wna.

Anrhydedd Babel gerth,
Nid yw o werth yn wir,
Na mwyniant pechod mall—
Daw arnynt ball cyn hir;
Mae adfyd gyda phobl Dduw,
Yn fwy o elw it', f'enaid, clyw. N. DDU.

## 100 M. N. 7, 6.

Yn mlaen mae'r Saint yn myned,
Yn enw Iesu mawr,
Gan ddryllio teyrnas Satan,
A'i thynu'n llwyr i'r llawr;
Mae'n hysbys fod y gelyn
Yn dod i'r maes â'i lu,
Ond nid oes achos ofni,
Try'r goncwest gyda ni.

Gan hyny, anwyl frodyr,
Milwriwn 'nawr yn hy,
Dangoswn fod ein harfau
Yn dod o'r nefoedd fry;
Dywedwn wrth bechadur
Pa beth raid iddo wneyd,
Sef cael ei newydd eni,
Fel yr oedd Crist yn dweyd. T. H.

**101** M. N. 7, 6.

Clodforaf fy Nhad nefol,
Am yr efengyl wiw
A rydd i bawb wybodaeth,
Trwy ddoniau Ysbryd Duw;
'Does achos ofni mwyach
Nad ym ni'n eiddo Ef,
Can's meddwn y wir grefydd,
Fel daeth i lawr o'r nef.

Am hyny byddwn ffyddlawn,
Heb ofni un rhyw haint,
Cofleidiwn y ffydd hono
A roddwyd gynt i'r saint,
Fel bo'm yn mhob amgylchiad
Yn gweddio ar ein Tad,
Yr hwn o hyd a'n gwrendy
Yn enw'r Iesu mad. T. H.

**102** M. N. 8, 7.

Fe ddaw Michael yr archangel,
Cyn bo hir â chadwyn gref,

Rhwyma Satan fil o flwyddi,
  Trwy awdurdod fawr o'r nef;
Wedi hyny fe ddaw'r Iesu,
  I devrnasu gyda'i saint;
Daw i'w deml mewn gogoniant,
  Bydd ei gwmni'n rhyfedd fraint. M. J.

## 103 M. C.

Ni chwympa cariad ymaith byth,
  Ond saif mewn bod o hyd;
Cyd-oesa â'n tragwyddol Dad,
  Can's cariad yw i gyd.

Geill proph wydoliaeth beidio'n llwyr,
  Tafodau fyn'd yn fud,
A'r hyn o ran ddiflanu oll,
  Ond cariad saif o hyd.

Daw'r hyn sydd berffaith oll i fod,
  Pan ddarffo'r hyn o ran;
Ond yn lle cariad bythol nef,
  Ni thardd dim arall lân.

Y cariad hwn, mor werthfawr yw—
  Mor fythol ei barhad!
Rhown ein calonau oll i Dduw,
  I'w llanw o hono'n rhad.

## 104 M. N. 7, 6.

O, Seion, pan feddyliwyf
  Am dy gyffiniau di,
Rhyw bleser sydd yn lloni,
  A'llenwi 'nghalon i;

Ond etto, mewn caethiwed
Wyf yma nos a dydd,
Yn nghanol fy ngelynion,
Heb allu rhodio'n rhydd.

Ond henffych fyth i'r boreu,
Pan o'm cadwynau dwg
Fy Iesu fi i Seion,
Rhag pob gelynion drwg;
Caf yno, gwn, deyrnasu
Dros fil o flwyddi llawn,
A byw yn ngwyddfod Iesu,
A'm prynodd un prydnawn.

**105** M. B. D.

Yn Seion bydd y Saint
Yn meddu braint a bri,
Cael cyd deyrnasu gyda'u Pen,
Yn llawen efo'r llu,
Dros fil o flwyddi maith,
Yn debyg idd eu Duw,
Yn cyd-fwynhau y ddedwydd fro;
O, na baem yno'n byw.

**106** M. N. 7, 6.

Cawn ddechreu oedfa newydd,
Er rhoddi mawl i Dduw,
Am werthfawr eiriau'r bywyd
I bawb o ddynol ryw;
O, gweddiwn oll yn ddiwyd
A ffyddiog bob rhyw awr,

Am iddo roi ei Ysbryd
I'n llenwi ar y llawr. J. D. W.

## 107 M. B.

Clodforwn Dduw bob un,
Mewn hoff soniarus gân;
Teilynga'n clodydd 'nawr yn fwy
Nag unrhyw dro o'r blaen.

Gofalodd hyd yn hyn
Am danom fel ei blant;
Edrychodd fod ei engyl glân
Yn cadw'r drwg i bant.

Bu temtasiynau'r byd
Yn cynnyg lawer gwaith;
Ond rhoddodd Duw ei Ysbryd Glân,
I'n cadw gyda'i waith.

O, Dduw, derbynia'n mawl
Yn gymmeradwy fry,
A'th ofal tadol fo'n parhau
Yr un tuag atom ni.

## 108 M. H.

Ymnerthwn ynot ti, ein Duw,
Trwy bob rhyw rwystrau, tra fo'm byw;
Dy gymhorth dyro in' o hyd
Er mwyn egluro'th air i'r byd.

Dy air adferaist in,' O Dad,
Ac hwn bregethir 'nawr yn rhad;
Geill pawb a fedda galon friw,
Trwy fedydd, ddod i deyrnas Dduw.

'Nol hyn, er nerth i fyn'd yn mlaen,
Ceir cymhorth trwy yr Ysbryd Glân;
Goleuni hwn a'n tywys draw
I fynydd Seion maes o law. T. LL.

## 109 M. N. 6, 8.

Mae'r boreu'n agosâu,
Pan ddelo Iesu lawr;
Ffyddloniaid y pryd hwn,
Eu gwobr fydd yn fawr;
Yn Seion bydd cartrefle'r saint,
A'u Brenin geidw ffwrdd bob haint.

Er myn'd trwy rwystrau mawr,
Gelynion o bob tu,
Cawn fuddugoliaeth fawr
Ar yr holl arfog lu;
Trwy glod ac anghlod 'mlaen yr awn,
Tu draw yn Seion concwest gawn. T. LL.

## 110 M. B.

Daeth Iesu Grist o'r nef
I wisgo corff o gnawd;
Bu farw'n ddiddig yn ein lle—
Ein Brenin yw a'n Brawd.

'Nawr canlyn Iesu cu,
A ddylem drwy ein hoes;
Bu farw'n wirion drosom ni—
Aeth dan y lymaf loes.

Dyoddefodd boen a gwawd,
Er achub euog ddyn;

Pob rhinwedd ynddo ef a gawd—
Bu'n ostyngedig un.

Ei waith orpheuodd Ef;
Mae'r ffordd yn awr yn rhydd
I ninnau deithio llwybrau'r nef,
At deulu gwlad y dydd. G. W.

## 111 M. H.

Dy Ysbryd di, O Arglwydd mawr,
Yn dywalltedig fo i lawr
Ar bawb sydd yn yr odfa hon;
Dy gariad pur a'n gwna yn llon.

Ymglymwn yn dy gariad di,
Nes cyrhaedd trwy bob rhwystrau sy,
I'r wlad lle nad oes cur na phoen,
I holl ganlynwyr 'r addfwyn Oen. T. LL.

## 112 M. N. 7, 6.

Yn awr mae Duw yn galw
Ar frys i ufyddhau,
I gredu yn yr Iesu,
A gadael ffwrdd bob bai;
Cymmerwch eich bedyddio
Gan weision Iesu Grist,
Nac oedwch mwy i'r alwad—
Pa les yw bod yn drist?

A thrwy arddodiad dwylaw
Cyfrana i bob rhai
Rhyw ddawn o'i nefol Ysbryd,
Gwna hwn eich llwyr ryddhau

Oddiwrth bob rhyw ofidiau
Yn awr sy'n llenwi'ch bron;
O, ddynion, pa'm yr oedwch?
Gwnewch ddod yr odfa hon. T. LL.

## 113 M. B.

Edrychwn ar yr Oen
Yn gudd o dan y lli;
Ac wele ef yn dod i'r làn,
Gan ddysgu'r ffordd i ni.

Mor ostyngedig mae
I'r geiriau dd'wed ei Dad!
Aeth gydag Ioan lawr i'r dwr,
Fel un oedd am lanhad.

Yr Ysbryd ddisgyn 'nawr
Ar ben ein Crist yn glau,
Sy'n arwydd na ddaw lawr ar neb,
Sydd heb ei lwyr lanhau. *

## 114 M. S.

Ffydd heb weithredoedd marw yw,
Medd geiriau y Duw geirwir;
Heb roi ufydd-dod (nid mewn rhith),
Pechadur byth ni chedwir.

Rhaid dy fedyddio yn y dwr,
A'th eni'n siwr o hono;
A rhaid it' dderbyn 'r Ysbryd Glân,
Yn ddyddan, i'th santeiddio.

A'r Ysbryd hwn a'th dywys di,
A'th arwain i'r gwirionedd,

Fel gelli fod yn gall wrth fyw,
A dod i Dduw'n etifedd.

Ac hefyd dy addasu wna
'Gwrdd Iesu a'i angylion,
A chael yr etifeddiaeth fydd
I'r Saint ar fynydd Seion.

A thi gai wynfyd mawr didrai,
Os gwnai barhau yn ffyddlon;
Cei gwmni Iesu Grist o hyd,
Ac hefyd ei angylion. G. W.

**115** M. N. 8, 7.

Arglwydd, nertha di dy weision
Fydd yn sefyll yma 'nawr,
I bregethu 'rhyn a berthyn
I dy deyrnas ar y llawr;
Dyro iddynt nerth dy Ysbryd,
Fel y gallont draethu'n hy,
Gyda dangos i bechadur
Mai un ffordd i'w gadw sy. T. H.

**116** M. N. 8, 8, 6.

Yn llwyr dinystrir Babilon,
Er cymmaint rhwysg ac ymffrost hon,
Chwalir ei muriau mawr;
I'r dialedd for syrthio wna,
Pan fyddo holl phiolau 'i phla
Yn cael eu tywallt lawr.

Ond diolch i'n tragwyddol Dad,
Sy'n galw trwy'r efengyl fâd,
Fy mhobl, allan dewch

O'i chanol, fel na byddoch chwi
Gyfranog o'i holl bläau hi,—
Gwlad ddiogel hyfryd gewch.

Ond yr holl ddynion cyndyn cas,
Sy'n gwrthod dod o honi maes,
Ddyfethir yn ei haint;
Ond caiff yr Iesu ufydd trwy,
A'r Iesu'n Frenin arnynt hwy,
I Seion at ei saint.

Telynau euraidd gaiff y saint,
O fewn i'r nefol wlad ddi-haint,
Dros fyth i ganu mawl,
Lle na bydd nos o fewn y wlad,
Ond canol-dydd o fyth barhad;
O hyfryd, hyfryd wawl. B. D.

## 117 M. N. 11au.

Fel tân sydd yn llosgi mae Ysbryd ein Duw;
Fe'i teimlir ef yma, un nerthol iawn yw;
Llefaru mewn ieithoedd dyeithr y mae,
A rhoi cyfieithadau er lles i bob rhai. —

Dadguddia ddirgelwch pob drwg a phob da,
Ac er ein cysuro, prophwydo a wna;
Mae'n llanw ein teimlau, mae'n gryfder i fyw,
A sicrwydd a rodda i anwyl blant Duw. *

## 118 M. N. 8, 7, 4.

Hoff yw cofio am farwolaeth,
Pan mae bywyd wedi 'i gael;

Trwy oddefaint dirfawr Iesu,
Cawsom lu o roddion hael;
Yn y swper,
Cofiwn bawb am Iesu Grist.

Tra y bo'm yn cyfranogi
O'r elfenau santaidd hyn,
Doed i'n cof hoff eiriau'n Ceidwad,
Sef y daw ar gwmwl gwyn;
O, dysgwyliwn
Am yr hyfryd ddydd a ddaw.

## 119 M. S.

Duw a osododd yn ei dŷ
Brophwydi, apostolion,
Ac efengylwyr rhoes wrth raid,
Bugeiliaid ac athrawon.

Gwnant hwy berffeithio'r saint i waith
Y weinidogaeth wiwlwys;
Ac eu gosodiad hefyd sy
Er adeiladu'r eglwys,—

Hyd oni chwrddwn oll 'run dydd,
Mewn undeb ffydd ac ysbryd,
At fesur oed ein Iesu mâd,
Yn Seion, gwlad y gwynfyd.

## 120 M. N. 8, 7.

Arglwydd, edrych ar ein cynghor,
Edrych arno yn dy ras,
Fel bo holl gyfreithiau'th deyrnas
Yn cael eu hegluro mas;

Rho dy Ysbryd yn neillduol,
  Mae ei eisieu arnom oll,
Fel y byddom yma'n trefnu
  'R moddion goreu rhag pob coll.

## 121 M. N.

Henffych i'r dydd, y dydd y daeth
  Yr angel â'r efengyl,
Yr angel welodd Ioan fry
Yn hedeg trwy y nef yn hy,
  I draethu'r newydd anwyl.

I efengylu i'r holl fyd
  Y newydd gwerthfawr hyfryd;
Cenedloedd pell, caiff rhai'n i gyd
Y newydd am Iachawdwr byd,
  Yn dyfod i deyrnasu.

Caiff India, Affric, Asia fawr,—
  Pob talaeth dan y nefoedd;
Cânt glywed son am Galfari,
A'r aberth dalwyd arni hi,
  I'n hachub ni, y bobloedd.

Clodforwn am yr hyfryd sain,
  Sef sain efengyl Iesu;
Baneran hon yn chwifio bo,
A'i hadsain hefyd dros y fro,
  Nes cael o'r Saint deyrnasu.

Can's daeth yr oes, yr oes y bydd
  I'r Sanctiau gael teyrnasu;

Ac hefyd, aiff teyrnasoedd byd
Yn eiddo'n Harglwydd ni i gyd,—
Cawn gydag ef deyrnasu.

Ar fyr cawn weled Mab y dyn,
Ar gwmwl gwyn yn dyfod,
Mewn rhwysg a mawredd nefol, gwiw,
A chydag ef holl feibion Duw,—
A'r byw ânt i'w gyfarfod.

Ac yna'r llo, a chenaw'r llew,
Mewn porfa dew gorweddant;
Ni ddrygant ac ni ddifant mwy,
Can's Ysbryd Duw fydd arnynt hwy,
A phoen na chlwy' ni phrofant.

Gwyn fyd y Saint, bydd mawr eu braint,
Pan fydd yr haint yn dyfod;
Teyrnasant hwy ar ddaear lawr,
Ac arnynt hwy bydd nefol wawr,—
Cânt wel'd yn awr eu Priod.

Pwy, pwy yn awr na fydd yn Saint?
Mor fawr fydd braint y teulu,
Yn gwledda ar fryn Seion draw,
Lle na ddaw'r gelyn byth gerllaw,
'Roi briw na braw ond hyny.

Yn awr adferir yr holl fyd
I'r cyflwr pryd y crewyd;
Yr oen a'r blaidd a drig ynghyd,
Bydd melys ganu drwy'r holl fyd
A phawb yn byw mewn gwynfyd.

O, brysiwn, awn i Seion fryn,
  Lle cawn yn wyn ein gwisgo,
Ac hefyd gadw deddfau'r Ior,
A'n dysgu gan y nefol gôr,—
  Awn dros y môr, ac yno.

I California wlad yr awn,
  Lle cawn ni fod yn rhyddion,
Ac yno mewn palasau gwych,
Cawn foli'r Oen heb unrhyw nych,—
  A themlau gwych i r cyfion. J. P.

## 122 M. H.

O Dduw, mynega 'nawr i ni,
Trwy'th Ysbryd, dy ewyllys di,
Fel byddom yn cynghori'n gall,
A'n bryd i wella pob rhyw wall.

Rho i'n ddoethineb yn ei phryd,
A dangos in' o'th drysor drud;
Rho Ysbryd Iesu yn ein plith,
Fel ein hamdôir â'r nefol wlith. *

## 123 M. C.

O Dad, henuriaid eglwys Crist
  Sydd yma ger dy fron;
Edrychwn 'nawr mewn ffydd i'r làn
  Am wên dy wyneb llon.

A'th Ysbryd llanw'n llestri'n llawn,
  A chariad rho'n dd brin,
Ac am ddoethineb, rho heb baid,
  Can's rhaid i'n wrth bob un. *

## 124 M. H.

O Arglwydd Dduw, anfeidrol fawr,
Ymadael wna dy weision 'nawr;
Am neith o'r nef diolchant hwy,
A gweddiant am ei gael byth mwy.

## 125 M. N.

Doed y Dyddanydd oddifry,
  Ac atom ni i'n cynghor,
Myneged o ddoethineb Duw,
  O hyd i'n clyw yn rhagor.

Rhoed ddeall in' i dreiddio'n mhell
  I mewn i gell drygioni,
A dwyn anwyliaid Duw i maes
  I wel'd ei ras a'i allu.

## 126 M. N. 7, 6.

Gwrandawed nef a daear,
  Mawr hiraeth sydd yn awr
Yn llenwi ein calonau
  Am wel'd y boreu wawr.
Pan gawn ni rodio'n rhyddion
  Yn Seion gyda'r Saint,
Ac hefyd gyd-deyrnasu
  A'n Iesu—mawr ein braint.

Ein Tad, O dwg ni adref,
  Eir taer ddymuniad yw,
O gyrhaedd pob gelynion,
  I Seion fâd i fyw,

Lle cawn ni ogoneddu
Ein Iesu grasol cu,
'Rhwn roes ei hun yn brydferth
Yn aberth drosom ni.

—

**127** M. N. 8, 4.

Nid oes yma ond gorthrymder,
Tra fyddom byw,
Cawn cyn hir drag'wyddol bleser,
Yn Seion wiw;
Cawn gwmpeini heirdd angylion,
Patriarchiaid, apostolion,
A'r prophwydi, a'r duwiolion,
Yn Seion wiw.

Pwy gaiff wisgo eu coronau,
Yn Seion wiw?
Neb yn wir ond ffyddlawn seintiau,
Yn Seion wiw;
Er cael yma ein dirmygu,
Ni gawn yno'n gogoneddu,
A theyrnasu gyda'n Iesu,
Yn Seion wiw.

—

**128** M. S.

Dwy law y diwyd wneir yn frâs,
Derbynia râs y Brenin,
I'w nerthu i fyned yn y blaen,
Er satan a'i holl fyddin.

Caiff fyn'd cyn hir i Seion wiw,
I fyw dros fil o flwyddi,

A chyd-deyrnasu gyda'r saint,
Mawr fydd eu braint bryd hyny. —

## 129 M. N. 8, 7.

Arglwydd, etto y dymunwn
Gael o'th Ysbryd arnom ni,
Fel y gallom oll weithredu
'Rhyn fo 'nol dy 'wyllys di;
Dyro ef yn Ysbryd deall,
Idd ein tywys yn dy waith,
Fel y gallom yn effeithiol
I ryddhau a rhwymo'n gaeth. T. H.

## 130 M. C. D.

Gwrandawed holl drigolion byd,
Mae'n bryd i barotôi,
I geisio rhan yn nghrefydd Crist,
A rhag yr aflwydd ffoi,
Cyn delo ar gymylau'r nef
I farnu dynol ryw,
A'i holl angylion gydag ef;
O, byddwch ynddo fyw. —

## 131 M. N. 7, 6.

O, Arglwydd, dyro ini
Dy allu i fyn'd yn mlaen,
Fel gallom dy was'naethu,
A'th foli oll ar dân,
Yr hwn wyt Dad trugarog,
Un enwog yn mhob man,
Yn barod â'th gynnorthwy,
Yn wastad i'r rhai gwan.

Ond ini gael dy Ysbryd,
Yn hyfryd awn o hyd,
Er gwaetha' holl lu'r fagddu,
A diffaith blant y byd;
Cyrhaeddwn yn y diwedd
Mewn llawn orfoledd llon,
I santaidd fynydd Seion,
I foli ger dy fron. —

**132** M. N. 11au.

Hoff seintiau y dyddiau diweddaf a fydd,
Yn Seion yn seinio hosanna rhyw ddydd,
O foliant i'r Iesu, eu Prynwr a'u Pen,
'Rhwn ga'dd ei groeshoelio rhwng daear a nen. —

**133** M. H.

Mi wn y daw ein Crist rhyw bryd,
Un waith yn rhagor lawr i'n byd;
A'r llygaid hyn, mi wn, a wêl
Y Barnwr cyfiawn, pan y dêl.

Yn yr oes hon, ein Iesu sydd
Yn rhoi dadguddiad nos a dydd,
Y daw 'nol ei addewid gref,
A'i holl angylion gydag ef. —

**134** M. C.

Y doniau nefol, Arglwydd da,
Cyfrana yma 'nawr,
Fel byddom ni, dy anwyl blant,
Mewn mwyniant fach a mawr. —

## 135 M. N. 10au.

Y gareg fach a welodd Daniel, sydd
Yn myned 'nawr yn fwy o ddydd i ddydd ;
Yn fuan hon a â fel mynydd mawr,
A dryllia ar ei hynt holl ddelwau'r llawr.

Yn deyrnas helaeth bydd o fôr i fôr,
A'i deiliaid lywodraethir gan yr Iôr ;
Yn fythol saif, ac nis gorchfygir hi,
Can's gwrthryfelwyr roir mewn pydew du.

## 136 M. N. 6, 4.

Edrychaf 'mlaen o hyd,
Mewn blin drafferthus fyd,
I Seion gu,
Lle mae im' roesaw gwiw,
I ddyfod gan fy Nuw ;
Caf yno hir gyd-fyw,
Yn mysg y llu.

Dros fyth caf foli'r Oen,
Fu ar y groes mewn poen,
Ac ingder du ;
Bydd ef yn Frenin gwiw,
Yn mhlith y nefol ryw ;
Caf ganu, " Teilwng yw
Ein Harglwydd ni."

## 137 M. N. 8, 8, 6.

Yn iach, yn iach ! gyfeillion cu,
A'r holl berth'nasau ini sy,
Gwnawn fyn'd i Seion draw,

I blith y seintiau siriol wedd,
Lle cawn ni drigo'n un mewn hedd,
O gyrhaedd trais a braw.

Yn iach, yn iach! i'r ynys hon,
A'i holl bleserau gwag o'r bron;
Gadawn hwy'n llwyr yn awr:
Hoff tirio'n mlaen i'r ddedwydd wlad,
Row'd mewn addewid gan ein Tad,
Lle mae bendithion mawr.

Os cawn ystormydd ar ein taith,
Gwna Duw yn rhwydd feistroli 'i waith,
Ond ceisio'n enw Crist;
Y gwynt ddystawa wrth ei arch,
A'r tonau gluda'n fwyn ein harch,
Fel na fydd neb yn drist.

**138** M. S.

Yn adrodd geiriau wyf o hyd,
Ond pa rhyw bryd 'rwy'n gweddio?
Neu, a yw llef fy nghalon fau,
Fy ngeiriau'n cyfarwyddo?

Yn ofer bydd fy nghwyn a'm cri,
Os anghen ni wnaf deimlaw—
Os nad o deimlad eisieu bydd
Fy ngweddiau i gyd yn deilliaw.

Yn gystal gallaf blygu'm glin
I eilun i'w addoli,
A chynnyg gweddi i'r Duw byw,
Heb namyn geiriau ynddi.

Duw, dysg beth yw fy rhaid heb feth,
  A dysg pa beth im' weddio;
Na âd im' byth ymbilio'th râs,
  Heb i mi addas deimlo.

## 139 M. N. 8, 8, 6.

Fe gawn, fe gawn feddiannu gwlad,
Na ddichon gelyn a'i holl frâd,
  Ein blino byth yn hwy;
Yn mhlith y saint ac engyl nef,
Yn canu moliant iddo Ef
  Am rinwedd Crist a'i glwy'.

Cawn ganu'n iach i Babilon,
A'i holl wageddau ffol o'r bron,
  'Nol myn'd i Seion glyd;
A bythol fyw mewn eithaf hedd,
Gan gadw'n unfryd hyfryd wledd,
  Ar fwrdd ein Duw o hyd.

## 140 M. C.

Fel hyn y d'wedodd Llywydd nen,
  "Dihun, fy nghleddyf llym;
Dihun, fy llid, a tharo'r dyn,
  Yr hwn sydd gyfaill im'."

Dialedd a dderbyniai'r arch,
  Ac arfog hedai lawr;—
Yr Iesu'n ufyddhau i'w Dad,
  A marw mewn ingder mawr.

Ond, O! 'r doethineb mawr a'r grâs
  Sy'n nglyn â dial 'nawr;

Efe yn marw in' cadw'n fyw,
A chodi o lwch y llawr.

Mor ddwyfol yw y Brenin hwn!
Ei ladd a gym'rai gael,
Fel gallai roi ei fywyd ffwrdd,
A'i gym'ryd 'nol heb ffael.

Bydd fyw, O Dduw! llywydda'n ben;
Pob cenedl caned 'nawr,
A'r engyl seinient glodydd pêr
Idd ein Gwaredwr mawr. *

**141** M. N. 6, 8.

Cyduned engyl nef,
A seintiau ar y llawr,
Mewn cân o uchel lef
O glod i'r Arglwydd mawr,
Nes dadsain trwy ororau'r nen,
Ag uchel floedd, mai Ef sy'n ben. *

**142** M. N. 2, 8.

Daw, daw,
Y dydd anferthol maes o law,
Pob llwchyn gwael i'r frawdle ddaw;
Bydd rhai mewn braw ac ingder du,
A rhai mewn bri, yn llon eu gwedd,
O flaen y sedd, yn ddirfawr lu.

Gwae, gwae!
Bryd hyn a fydd i'r euog rai;
Dim modd ni fydd i guddio'u bai,
Ond gwnant dristâu o flaen eu Duw,

Pan dd'wed i'w clyw, Ewch chwi i'r tân,
Am wrthod Un a'ch cadwai'n fyw.

Llon, llon,
A fydd anwyliaid Crist o'r bron,
Llawenydd nefol leinw'r fron;
Mewn hedd hwy elwir at eu Tad,
I feddu gwlad lle nad oes poen,
Byth gyda'r Oen, mewn llawn fwynhad. *

**143** M. N. 8, 7.

Fe'n gwrandewir gan yr Arglwydd,
Pan dderchafwn fry ein llef,
Os mewn ffydd y bydd ein gweddi,
A chan gredu T'wysog nef;
Fe addawodd i bwy bynag
A wnai geisio gan y Tad,
Yn ei enw gogoneddus,
Y gwnai roddi iddo'n rhad. *

**144** M. H. D.

Ein breintiau mawr, mawrhawn bob un,
Ac hyfryd ganwn yn gytun;
Mae'n Tad yn Arglwydd nef a llawr,
A pherthyn i'n Eiriolwr mawr,
Trwy'r hwn, wrth ofyn, cawn yn rhad,
Fendithion gan ein Nefol Dad.
Mawrhawn ein breintiau mawr bob un,
Gan ganu'n hyfryd a chytun. *

**145** M. N. 8, 7, 4.

Arglwydd, anfon y Dyddanydd,
At dy blant sydd yma'n nghyd;

Dysgwyl maent yn enw'r Iesu,
Ei gymdeithas hoff i gyd;
Arglwydd, coña,
Mewn trugaredd am dy saint.

Agor o ffenestri'r nefoedd,
Edrych wared ar dy blant;
Gweled rhagor o'th ogoniant,
Yw yr oll o'n bryd a'n chwant;
Er mwyn Iesu,
Na wrthoda wrando'n cri.

**146** M. N. 6, 4.

Am y newyddion da,
Fy enaid, llawenha
Eu dod i'th glyw:
Dymuna mwy o hyd
I bawb sydd yn y byd,
Gael rhan o'r trysor drud,
Sy'n rhad gan Dduw.

O gweddia aml waith
Am weithwyr at y gwaith
O hau yr had;
Os bydd it' wneyd dy ran,
Duw wrendy yn y man,
A chynnyrch gwyd i'r làn
O fewn pob gwlad.

**147** M. N. 11au.

Pa beth yw'r arwyddion sydd fry uwch ein pen?
Pa'm ddua yr haulwen yn entrych y nen?

Paham y tywyll'a y lleuad a'r sêr?
Paham yr ymysgwyd elfenau ein Nêr?

Pan welom ffigysbren yn deilio yn braf,
Fe wyddom mai agos yw tymmor yr haf;
Efelly, pan welom arwyddion y nef,
Gwybyddwn mai agos i ddyfod yw Ef.

Er cymmaint y nodau a welir bryd hyn,
Y daw yr Iachawdwr ar gwmwl mawr gwyn,
Fel 'roedd cyn y diluw—difeddwl pob un,
Efelly bydd hefyd cyn daw Mab y dyn.

Yn ofer i lawer y nodau a fydd,
Ni fyddant yn deall mai agos yw'r dydd;
Yn nodau ni fyddant i'r rhai'n, er eu maint,
Ond byddant yn ddigon o arwydd i'r Saint.

Pa beth yw'r sain udgorn a swnia mor fawr!
Ust! dyfod mae'r Iesu! Och! gwae ni yn awr!
Pa le yr ymguddiwn?—un cynnyg ni lwydd!
O, syrthied y bryniau i'n cuddio o'i wydd!

Y ddysclaer orymdaith sy'n tramwy trwy'r nen;
Yr engyl a'r seintiau sy'n canlyn y Pen:
Y cwmwl a wisga ogoniant di-ail,
Can's arno yn marchog mae Adda yr Ail.

Nid yn y diffaethwch na'r 'stafell y mae,
Ond fry, megys mellten, yn ngolwg pob rhai;
Nid mwy y dadleuir nad felly y daw,
Can's llenwir pob mynwes â sicrwydd a braw.

Ow! wele fflam danllyd yn ysgwyd i lawr;
Dialir yr euwir sy'n bod ar y llawr!
Peidiasant â derbyn efengyl Mab Duw,
A chyfiawn yn ddiau eu dinystr yw.

Yn awr yn gasgledig mae'r Saint hob yr un,
A chyda eu Brenin maent oll yn gytun;
Teyrnasant am fil o flynyddoedd, a byth,
Heb elyn i'w blino, na phoen yn eu plith. *

**148** M. N. 8, 7.

Hyfryd ydyw hun y gweithiwr,
Hyfryd gorphwys ar ol taith,
Hyfryd cael rhyw beth o'r diwedd,
Wedi methu lawer gwaith;
Ond mwy hyfryd yw'r wlad ddedwydd,
Sydd yn aros pobl Dduw,
Ar ol crwydro mewn anialwch,
Yn mhlith dreigiau aml ryw. *

**149** M. N.

Tyr'd, Ysbryd Glân, tyr'd lawr i'r oedfa hon;
Tyr'd, Ysbryd Glân, gwna fynwes pawb yn llon.
Addawwyd gan Enneiniog Duw
I roi'r Dyddanydd cu;
Ein Nefol Dad,
O danfon ef 'nawr i ni.
Mae yn arweinydd i ni oll,
Mae'n gysur in' wrth fyw;
Mae'n dwyn tystiolaeth dan ein bron,
Ein bod yn blant i Dduw.

Ysbryd Duw, brofasom cyn yn awr;
Ysbryd Duw, ddysgwyliwn etto i lawr.
Mae'n dyfod gyda gwresog dân,
Mae'n traethu pethau mawr;
O rasol Dduw, derbynia'm cân,
A danfon ef yn awr. *

## 150 M. N.

Mor hyfryd yw, cymdeithas hoff y Saint;
Mor hyfryd yw, cael meddu'r cyfryw fraint.
Cael meddu cwmni'r Nefol Dad,—
Mae'n bod lle mae ei blant;
A lle bo Duw,
Mae tristwch yn cilio bant;
Mae hyn yn dâl am ddirmyg byd,
Mae'n goron am bob croes;
Mae baich ein Crist yn rhwydd fel hyn,
Mae'n hawdd ei ddwyn trwy'n hoes.

Hyfryd yw, cael profi'r Ysbryd Glân;
Hyfryd yw, gwresawgrwydd nefol dân.
O, Arglwydd, tywallt ef yn awr—
O, yn ei ddoniau doed;
Boed iddo draethu pethau mawr,
Fel mae yn gwneyd erioed. *

## 151 M. N.

Efengyl Crist, a elo dros y llawr;
Efengyl Crist, derbynied bach a mawr.
Cyhoedder yr efengyl hon
I bob rhyw lwyth ac iaith;

A deued pawb,
I arddel Duw a'i waith.
Maddeuant i bechadur sydd,
Os gwrendy eiriau Duw;
A bendith ar ol bendith fydd
I'r rhai trwy ffydd sy'n byw.

Efengyl Crist, O newydd da i ddyn!
Efengyl Crist, O llawenhaed pob un.
Modd sydd i achub euog fyd,
A'u dwyn yn un yn Nghrist:
Pa'm ofna dynion yn barhaus?
Pa'm byddant mwy yn drist? *

## 152 M. N.

Canwn yn hyfryd,
Mae achos bod yn llon;
Carwn ein gilydd,
Mae llid am le'n y fron.
Gwyliwn yn wastad,
Mae'r gelyn o'n naill du;
Gweddiwn yn ddyfal,
Mae Crist yn eiriol fry.
Byddwn yn ffyddlon,
Cawn wobr ganddo Ef;
Ië, cawn goron
Sy'n nghadw yn y nef. *

## 153 M. H.

Moliennwch Dduw, yr Arglwydd mawr,
O'r nef a'r lleoedd uwch y llawr;

Rhowch iddo glod, ei engyl glân,
A chwi, ei luoedd, fawr a mân.
Chwi haul a lloer, rhowch iddo glod,
A'r sêr dirif sydd uwch y rhod;
Di, nef y nef, rho'th fawl yn hy,
A'r dyfroedd yn yr entrych fry;
Rho'nt fawl i Dduw, can's ef yn gu
A archodd "Boed," a hwythau fu;
A hwynt i bara byth a wnaeth,
Gan roi 'ynt ddeddf i'w chadw'n gaeth.
Yr Arglwydd, molwch ef o'r llawr,
Y dreigiau, a'r dyfnderau mawr;
Y tân a'r cenllysg, eira, a tharth,
Y gwynt ystormus—gwnant ei arch;
Y bryniau a'r mynyddoedd gyd,
Coed ffrwythlawn, a'r holl gedrwydd drud:
Bwystfilod, pob anifail sy,
Ymlusgiaid a'r asgellog lu;
Breninoedd daear, pobloedd oll,
T'wysogion, barnwyr, pawb heb goll;
Gwyr ieuainc a gwyryfon cu,
Henafgwyr, gyda'r llanciau'n llu;
Gwnewch foli enw'r Arglwydd Dduw,
Can's enw dyrchafedig yw;
Ei ardderchogrwydd rhyfedd ef
Sydd uwchlaw'r ddaear, uwchlaw'r nef;
A chorn ei bobl dyrchu mae,
Sef moliant ei holl santaidd rai,
Sef meibion Israel, teulu Duw—
Yr Arglwydd molwch, teilwng yw. *

**154** M. N. 7, 6.

Bendithia ni, O Arglwydd,
A rhoddion oddi fry;
Yn enw'r anwyl Iesu,
Dy Ysbryd rho i ni.
I'th fedydd ein bedyddiwyd,
Er golchi'n beiau'n lân;
Santeiddia ni, gan hyny,
A'r Ysbryd Glân a thân.

Addewaist ti gyfranu,
Ond gofyn it' mewn ffydd;
Rho i ni ysbryd gweddi,
A chalon ddrylliog brudd.
Rho nerth i fod yn ffyddlon,
Bod gariad yn ein plith,
Fel caffom dy fendithion
A gwisgo'th enw byth.

**155** M. N.

Cysura di, O Dad, dy blant;
Gyr ofn byd o'n bryd i bant;
A phan fo erlid ar dy saint,
Dysg iddynt gyfrif hyny'n fraint;
Can's ar ol storom, daw hin deg,
Ac 'nol dwyn croes, ceir coron chweg.

Os rhoddi di dy Ysbryd Glân,
I'n tywys yn dy waith yn mlaen,
Bydd pob rhyw groesau yn y byd,
Yn troi'n bleserau etto'i gyd;

Can's gwobr in' yn nghadw sy,
Os byddwn ffyddlawn fyw i Ti. *

## 156 M. N.

Beth yw'r alwad sydd trwy'r gwledydd ?
Galwad daer ar bob dyn byw.
Pa beth ydyw'r alwad hòno ?
Gwahodd dyn i heddwch Duw.
Caner, caner byth am dani ;
Na wrthoded dynion hon.
Para mae i wahodd heddyw ;
O derbynier hi yn llon. *

## 157 M. N.

Hoff yw trigo gyda'r Saint,
Pan fo cariad yn eu plith;
Dyma ydyw'r benaf fraint
A ddymunwn feddu byth.
Yno erys Ysbryd Duw —
Pwy a wŷr mor wresog yw ?
Neb ddywedaf ond y Saint;
Gyda hwy y mynaf fyw. *

## 158 M. H.

" Er cof gwnewch hyn am danaf fi,"
Oedd geiriau mwyn yr Iesu cu ;
Y bara ydyw corff Mab Duw,
A'r cwpan gwaed o'i ystlys yw.
" Bwytewch, ac yfwch," meddai Crist,
" Er coffa am fy angeu trist ;
Gwnewch hyn nes delwyf yr ail byd,
Pan yfwn newydd win yn nghyd."

O hyd wrth wneyd â'r ordinhad,
Sy'n cynnwys corff ein Crist a'i waed,
Gwnawn fod mewn cariad yn gytun,
Gan gofio cariad Crist ei hun. *

## 159 M. C.

Gwlad dda sy'n aros pawb o'r Saint,
Gwlad hen addewid Duw;
Ni fydd o'i mewn un pla na haint,
Ond pleser o bob rhyw.
'Rym ni yn teithio yno 'nawr,
Er bod ein ffordd trwy anial mawr;
Mae'r hen addewid yn ein cof,
Cawn gyrhaedd yno'n wir.
Beth, cyrhaedd yno'n wir?
Ië, cyrhaedd yno'n wir.
Beth, cyrhaedd yno'n wir?
Ië, cyrhaedd yno'n wir.
Mae'r hen addewid yn ein cof,
Cawn gyrhaedd yno'n wir.

Prophwydwyd llawer am y wlad
O ddechreu'r byd hyd 'nawr,
Ond buan ca y Saint ei gwel'd,
A gwel'd ei Brenin mawr.
'Rym ni yn teithio, &c.

Hon ydyw gwlad y llaeth a'r mêl,
A gwlad gwinllanoedd llawn;
Gwlad lle ceir gwledda'n llon o hyd
Ar bob rhyw sypiau grawn.
'Rym ni yn teithio, &c.

Gwlad yw lle'r adeiladir tai,
  Ond nid i ereill fyw;
Lle pleuir, ond nid oes fo'n dod
  Gaiff fwyta'r ffrwythau gwiw.
    'Rym ni yn teithio, &c.

Fel dyddiau pren bydd dyddiau dyn,
  Caiff hir fwynhau ei waith;
Ni chlyw wylofain yn y wlad,
  Na gwaedd, nac ochain chwaith.
    'Rym ni yn teithio, &c.

A dyma'r wlad lle'r etyb Duw,
  Cyn gofyn iddo braidd;
A'r wlad lle pora'r llew fel ých,
  Lle'r una'r oen a'r blaidd.
    'Rym ni yn teithio, &c.

Os dyma wlad addewid Duw,
  Mae hona'n wlad i ni;
A chawn trwy ffydd ei meddu byth,
  Can's Duw yn eirwir sy.
    'Rym ni yn teithio, &c. *

160 M. C.

Fe ddylid profi pob peth sydd,
  A dal yr hyn fo'n dda;
Can's dyna yw dyledswydd dyn,
  A doeth yw'r hwn a'i gwna. *

161 M. N. 8, 8, 6.

Edrychais i addewid Duw,
Pa ran o'r byd ca'r saint gyd-fyw,
  A Seion yw y lle;

Af yno wedi cwpla'm gwaith,
Ac yno'n wir bydd pen fy nhaith,
Ac yno bydd fy nhre'.

O, casgled pobl Dduw ynghyd,
A doent o bedwar cwr y byd,
Can's Seion yw eu lle;
Dewch yno, canys Duw yn wir
A ddaw i drigo yn y tir,
Lle byddo plant y ne'. *

**162** M. N. Sau.

Draw mae'r gamp, a draw mae'r goron,
Draw mae'r wobr i'r rhai ffyddlon;
Draw mae tori'r syched gerwin—
Draw yn ngwlad y llaeth a'r grawnwin.

Draw mae gorphwys wedi blino,
Draw mae diwedd ar ofidio;
Draw mae'm tynfa yn bresennol,
Draw mae'm gartref yn dragwyddol.

Draw sy'n dal fy mhen i yma,
Draw, mewn helbul, a'm cysura;
Draw yw'r lle y daw fy Iesu,
Draw yw'r wlad wy'n myned iddi. *

**163** M. N.

Ble mae'r wlad, a'i mwynhad,
Rydd eu Tad i'w saint?
Ble mae'r gwin melys rin?
Ble mae'r llaeth llawn o faith?
Draw, draw ar ben y daith? *

## 164 M. N.

Daeth angel i waered i'r byd o'i lân drigfa,
I ddweyd fod oraclau yn nghudd yn Cumorra,
Yn cynnwys cyflawnder efengyl yr Iesu,
Ynghyd â chyfammod ca'i fobl eu casglu.

O, Israel! O, Israel!
Trwy'r oll o'ch magwyrydd,
I'ch Arglwydd partowch,
Pan glywch chwi'r hoff newydd.

Mae'n drysor nefolaidd—yn llyfr llawn bywyd,
Llefara o'r ddaear trwy allu yr Ysbryd;
D'wed eiriau'r Iachawdwr, eill seintiau eu credu,
Er dysgwyl yr amser y daw i deyrnasu.

O, Israel! O, Israel!
Trwy'r oll o'ch magwyrydd,
I'ch Arglwydd partowch,
Pan glywch chwi'r hoff newydd.

Gwrandewch, chwi ynysoedd boblogir gan ddynion,
Mae pethau tra hynod i'ch aros yr awrhon;
Yn Seion mae teyrnas yr Iesu'n cyfnerthu,
Ymgasgla y cyfiawn, a'r anwir raid drengu.

O, Israel! O, Israel!
Trwy'r oll o'ch magwyrydd,
I'ch Arglwydd partowch,
Pan glywch chwi'r hoff newydd.*

## 165 M. C.

Derbyniwch 'nawr yr Ysbryd Glân—
 Derbyniwch rodd y nef;
Trwy ffydd yn unig gellir cael
 Ei ddoniau grasol Ef.

Gofynwch am addewid Duw,
 Y drws yn agor sydd;
Pob bendith y mae Duw yn roi,
 I'r taera'i lef y rhydd.

Gosoda'r swyddog ei ddwy law,
 Er agor drws i'r nef,
Gan ddweyd, " Derbyniwch :" yna pwy
 Fyn fyn'd yn wag i dref?

Mae eglurhad yr Ysbryd Glân
 Yn sicr i bob un:
Am hyny, gweddied pawb ar Dduw,
 Nes profi hyn eu hun. *

## 166 M. N.

Clod fo i'r dyn gyfrinachodd â'r Arglwydd,
Iesu eneiniodd y Prophwyd mawr hwn;
Ei fraint oedd agor yr olaf orchwyliaeth;
Perchir ef etto gan filoedd, mi wn.

 Henffych i'r Prophwyd, esgynodd i'r nefoedd,
 Bradwyr a threiswyr nis baeddant e'n hwy;
 'Nghanol y duwiau, gwna waith dros ei frodyr,—
 Angeu ni choncra y gwron byth mwy.

Clod fo i'w enw—bu farw fel merthyr;
Nefol enwogrwydd byth iddo fo'n bod:
Hir 'staenia ei waed, dywalltwyd gan fwrddwyr,
Holl wlad Illinois, tra'r ddae'r gân ei glod.
Henffych i'r Prophwyd, &c.

Mawr ei ogoniant, a bythol ei urddiad;
Ceidw'r allweddau am oesoedd diri';
Ffyddlawn a chywir y dena i'w deyrnas—
Coron ga 'n mhlith y prophwydi a fu.
Henffych i'r Prophwyd, &c.

ABERTH ddwg allan fendithion y nefoedd—
Am waed y dyn hwn, caiff daear roi iawn!
Dihuner y byd i frwydr cyfiawnder;
Gwel'd y "brawd Joseph" oll etto a gawn.
Henffych i'r Prophwyd, &c. *

**167** M. N.

Pwy sy'n meddu yr addewid,
Roes yr Arglwydd o'i Lân Ysbryd,
Yn ei amryw ddoniau hyfryd?
Saint y Goruchaf Dduw.

Pwy gant ysbryd prophwydoliaeth,
Ffydd, doethineb, a gwybodaeth?
Pwy lefarant â thafodiaith?
Saint y Goruchaf Dduw.

Pwy trwy'r Ysbryd gân ganiadau?
I bwy rhoir i wneuthur gwyrthiau,
Iachâu cleifion, a phob doniau?
Saint y Goruchaf Dduw.

Pwy sy'n meddu apostolion,
A phrophwydi, ac athrawon,
I berffeithio eu dyscyblion?
Saint y Goruchaf Dduw.

Pwy sy'n dysgwyl cydymgasglu
Yn wr perffaith, fel yr Iesu,
A byth gydag ef deyrnasu?
Saint y Goruchaf Dduw.

Pwy, gan hyny, ddylent beunydd,
Fyw'n gytun, a charu 'u gilydd,
Ac i ddiolch i'w Creawdydd?
Saint y Goruchaf Dduw. *

**168** M. N. 8, 7.

Arglwydd grasol, rho'th gynnorthwy
I gyhoeddi etto i maes,
Yr efengyl a ddadguddiwyd
Gan yr angel i dy was,
Sef efengyl ag arwyddion,
Hefyd doniau'th Ysbryd Glân,
Er ein tywys ni a'n harwain
Trwy yr anial daith yn mlaen.

Yr efengyl hon bregethir
Er tystiolaeth i'r holl fyd,
Fod yr amser braf ar ddyfod,
Pan grynhoa Duw ynghyd
Yr holl bethau yn y nefoedd,
Ac ar ddaear hefyd sydd,
Yn ddiogel yn Nghrist Iesu,
Rhag y storom fawr a fydd. —

## 169 M. N. 7, 6.

Yn llwyddo mae'r efengyl
  Yn gysson trwy'r holl fyd,
Er cymmaint ydyw erlid
  Yr holl satanaidd lid;
Mae miloedd o drigolion
  Trwy barthau'r byd o'r bron,
Yn talu eu hufydd-dod
  I'r wir efengyl hon.

Arwyddion sydd yn canlyn
  Yn gysson gyda'r rhai'n,
Fel y dywedai'r Iesu
  A wisgodd goron ddrain:
Mae Duw'n prysuro'r amser
  I ddwyn ei waith i ben,
Fel caffo y rhai gonest
  Fwynhau breniniaeth nen. J. B.

## 170 M. H.

Doed pawb sy'n ofnog, gwan, a thrist,
I ufyddhau i eiriau Crist,
'Rhwn ddaeth i'r ddae'r o'r nefoedd fry,
Er trefnu ffordd i'n cadw ni.

Nid parch a ga'dd gan fyd, ond gwawd,
Er mwyn rhoi bywyd i rai tlawd;
Ac er ei fwyn gwnaed lluoedd ddod
I'w deyrnas ef, i seinio'i glod.

Yr Ysbryd Glân a rydd yn hael
I'r sawl sy'n dod i'w dŷ i'w gael;

A'r Ysbryd hwn sy'n nerthu'r Saint
I gyfrif pob erlidiau'n fraint. T. H.

**171** M. N. 7, 6.

Chwi, ie'nctyd mawr eich breintiau,
Sy'n dysgu geiriau Duw,
Myfyriwch lawer ynddynt,
Ac arnynt byddwch byw;
Darllenwch etto ragor,
A gweddiwch lawer iawn,
Am gael eich gwir oleuo,
Foreuddydd a phrydnawn. B. D.

**172** M. N. 8, 7.

Arglwydd grasol, rho dy Ysbryd
I bob un o honom 'nawr,
Fel y gallom wel'd yn eglur
Werth y breintiau hidlaist lawr;
Cael efengyl mewn cyflawnder,
A'i bendithion yn ein plith;
Am dy roddion gwerthfawr ini,
Cei ogoniant genym byth. J. B.

**173** M. N. 7, 4.

Dyma grefydd wedi 'i chael,
Cyn y diwedd;
Hon a ddwg i'r enaid gwael
Wir ymgeledd:
Llwyddo wnelo yn mhob man,
Yw fy ngweddi,
Nes y delo'r cryf a'r gwan
Oll i'w chredu. T. H.

## 174 M. N. 8, 7.

Yr oedd Crist a'i apostolion
  Yn pregethu'n ffyddlon iawn,
Ac yn dangos i droseddwyr
  Ffordd yr iachawdwriaeth lawn;
Pan ddoi atynt ryw bechadur
  I ymofyn am ryddhad,
Hwy ddangosent iddo'n eglur
  Ffordd a drefnwyd gan y Tad.

Ni ddywedent, "Dos ffordd yna,"
  Ac wrth ereill, "Dos ffordd draw—
Nad oes cymmaint o wahaniaeth,
  Er it' fod ar ddeheulaw:"
Na, nid felly byth y dysgent
  Wrth bechadur i gael byw,
Ond dangosent hwy y gyfraith,
  Fel y daeth trwy Ysbryd Duw.

Rhoddent hefyd addewidion
  I'r credinwyr fawr a mân,
Sef tystiolaeth o'r efengyl,
  Gyda doniau'r Ysbryd Glân:
Mae yr un efengyl etto
  Ar y ddaear yn ei grym,
A phob un a wna ei derbyn
  Ef yn wir ni siomir ddim. T. H.

## 175 M. N. 8, 7.

Melys ydyw geiriau'r nefoedd,
  Hyfryd yw eu sain i'r clust;

Peidied neb rhyfygu gwadu
 Dim o eiriau Iesu Grist:
Yr arwyddion oll sy'n canlyn
 Pob credadyn ddaw i'n plith;
Fe â'r nef a'r ddaear heibio,
 Ond saif geiriau Iesu byth. D. D.

**176** M: N.

Pwy yw'r un deg hon o'r anialwch sy'n teithio,
Gan chwilio am Grist, ei hanwylyd a'i bryd?
Hon yw'r wir eglwys, priodferch yr Iesu,
Sy'n llwyr roddi heibio bob delw trwy'r byd,
A dynion mewn d'rysweh sy'n wastad yn gwaeddi,
A chlychau hen Babel yn gysson sy'n canu,
Fel pe bai eu twyll a'u holl fasgnach ar ballu,
A Iesu'n teyrnasu trwy'r ddaear i gyd.

Y mae rhyw swn peraidd yn 'fengyl y nefoedd,
A'r bobl sy'n llawen trwy ddeall y gwir;
A'r seintiau ddywedant yn llwyr benderfynol,
Trwy Dduw ni gyrhaeddwn y bendithiol dir.
Hen ffurfiol broffeswyr sy'n gwaeddi "twyll gwelwch;"
Hunanol ragrithwyr a dd'wed, "mae'n ddyryswch;"
Tra gras i ni'n tywallt fath ffrwd o hyfrydwch,
Wrth ganfod cwymp twyll offeiriadaeth wrth law.

O, fendith, O fendith, mae'r Iesu yn dyfod,
Fel d'wedai'r prophwydi trwy'r amser o hyd;
Ac Israel, anwylyd ein Duw, sydd yn dechreu
Par'toi ddod i'r wledd sydd i'r cyfiawn yn
nghyd.
'N yr anial ffynnonau beunyddiol sy'n
tarddu,
Peroriaeth nefolaidd o Seion sy'n canu,
A'r saint a'u holl ddegwm, a'u hoffiwm o'n
deutu;
A hyn brofa'r Arglwydd a'i fendith i ni.

Mae enw'r Jehofa yn deilwng o foliant,
Ac felly'n Gwaredwr, iawn Brynwr o'r bron;
Henuriaid o Israel y faner a godant,
Gan alw'r cenedloedd i ddyfod at hon.
Yn mlaen â'r henuriaid, a'r 'fengyl bregethant,
A phawb a'u gwrandawant yn hwylus addysgant;
Fel hyn gweledigaeth y proffwyd gyflawnant,
Y gareg o'r mynydd ar fyr leinw'r ddae'r.

D. AB I.

## 177 M. N. 7, 6.

Yn ffyddlawn fe fu Joseph
Ac Hyrum Smith ynghyd,
Yn dysgu egwyddorion
Iachawdwr mawr y byd;
Pregethu ffydd a wnaethant,
Ac edifeirwch dwys,

A bedydd er maddeuant,
Yr hyn sy'n fawr ei bwys.

Ac arddod dwylaw hefyd,
Er derbyn Ysbryd Duw,
Yr hwn eglura beunydd
Y ffordd i'r nef i fyw;
Am hyn y cynddeirioga
Y gelyn mawr a'i lu,
Am fod y Saint yn derbyn
Addewid Iesu cu.

Yn ffyddlawn byddwn ninnau
Ag sydd yn weision Duw,
I draethu'n cenadwri
I bawb o ddynol-ryw,
Fel gallom roddi cyfrif
Yn llawen, heb ddim braw,
Pan gaffo'r llyfrau 'u hagor
Y rhyfedd ddydd a ddaw. T. G.

179 M. C.

Ar lân y dwfr sefyll wnawn,
I wneyd ewyllys Duw,
Trwy gym'ryd ynddo'n claddu'n llwyr,
Er cael o'r newydd fyw.

O, Dduw, pechasom aml waith,
Ond 'difarhawn yn awr,
Gan olchi ein pechodau ffwrdd,
A llawenhau yn fawr.

Gwrandawa di ein gweddi ddwys,
Gan faddeu'n bai, O Dduw;

Can's ffrynd pechadur yw dy Fab—
 Bu farw i ni gael byw.

'Nol rhoi ein pechadurus gyrff
 O dan y dòn yn nghudd,
I fywyd santaidd codi wnawn,
 Fel rhai o'r bedd yn rhydd.

Efelly, pan gân udgorn Duw,
 Gwna'r saint lwyr ddryllio'r bedd;
Cyfodant oll i'r làn yn haidd,
 I feddu bythol hedd. *

**179** M. N. 8, 7.

Wele'th weision, Arglwydd grasol,
 Wedi dyfod yma 'nghyd,
I gael trefnu'r hyn a berthyn
 I dy deyrnas yn y byd;
O, am hyny, dyro'th Ysbryd
 Ar ein cynghor—dyna'n llef,
Fel y byddo'r hyn a drefnir
 'Nol ewyllys bur y nef. T. H.

**180** M. N.

 Deuwch i'r deyrnas,
 Deuwch i'r deyrnas,
Deuwch i deyrnas ein Duw;
 Mae y porth yn lled y pen,
 A gwahodd mae Brenin nen;
Pa'm na ddeuwch bawb iddi i fyw?
 Mawr yw ei breint'au,
 Mawr yw ei breintiau,
Mwy na ddychmygodd un dyn;

I bwy bynag iddi ddaw,
Rhoir gwybodaeth maes o law,
Fod ei Brenin yn caru pob un. *

**181** M. N. 8, 7.

Llwyddo wnelo'r fwyn efengyl
A'i thystiolaeth trwy'r holl fyd,
A doed miloedd idd ei derbyn,
Fel bo'nt ddiogel rhag y llid,
A chael derbyn gwir faddeuant
O'u pechodau'n erbyn Duw,
Trwy ufydd-dod i'r cyfreithiau
Roddwyd gynt gan Iesu gwiw.

Yna derbyn doniau'r Ysbryd,
Fel y d'wedodd Mab y dyn,
Sef llefaru a phrophwydo,
A'r rhai ereill bob yr un;
A chan hyny gwir ddiolchwn,
Y rhai gawsom y fath fraint,
O gael derbyn y fath roddion,
Ac addoli gyda'r Saint. T. H.

**182** M. N. 8, 7.

Llawer sydd o'th weision, Arglwydd,
Yn ngwahanol fanau'r byd,
Heddyw'n sefyll ac yn dangos
Ffordd yr iachawdwriaeth ddrud;
Rho dy Ysbryd yn arweinydd
I'r rhai hyn, ein Nefol Dad,
Fel y caffo llu eu derbyn
Mewn i eglwys Iesu mâd. T. H.

## 183 M. N. 8, 7, 4.

Daw yr amser pryd ceir gweled
Yr holl Saint yn fawr a mân,
Wedi myned o'r caethiwed,
Gyda'r Iesu'n seinio'r gân;
Haleliwia,
Amser hyfryd pan y daw.

Gorfoledda plant caethiwed
Sydd yn myd y cystudd mawr,
Pan gant dderbyn gwir ymwared
Rhag y pläau ar y llawr;
Haleliwia,
Cânt deyrnasu gyda'r Oen.

Ni fydd yno ddim un gelyn
I wneyd niwed iddynt hwy,
Ond cydunant gyda'r delyn
I roi clodydd bythol mwy;
Haleliwia,
Dyma grefydd dâl eu ffordd. T. H.

## 184 M. N. 8, 7.

Geiriau Duw sydd yn rhagori
Ar bob peth sydd yn y byd;
Nef a daear, hwy ddarfyddant—
Geiriau Duw a saif o hyd;
Pan dywylla'r haulwen ddysclaer,
Pan dry'r lleuad wen yn waed—
Geiriau'r Iesu, hwy a safant—
Eu cyfnewid ni fydd raid.

Er y gwywa y glaswelltyn,
  Er y syrthia'r blodau lawr,
Ond saif geiriau'r addfwyn Iesu,
  Gwnant i dragwyddoldeb mawr;
Er y todda yr elfenau
  Gan y mawr-wres ddydd a ddaw,
Ond am eiriau'r Oen fu farw,
  Byth ni syflant ar un llaw. T. H.

## 185 M. H.

O, frodyr a chwiorydd llon,
Cydunwn oll yr oedfa hon
I seinio clod o uchel gân,
I Dduw am roddi 'i Ysbryd Glân.

A gweddiwn arno ef trwy ffydd,
Am roi ei nerth o ddydd i ddydd,
Hyd nes cyrhaeddwn Seion dir,
Lle cawn ddedwyddwch, heb ddim cur.
T. H.

## 186 M. N. 8, 7.

Gwrandaw, Arglwydd, rho fendithion
  Yn yr oedfa yma 'nawr,
Rho dy Ysbryd mewn modd nerthol
  Er dadguddio pethau mawr;
Dyro ef yn ysbryd deall,
  A gwybodaeth i ni gyd,
Fel y gwnelom dy addoli
  Mewn llawn cariad, o un fryd. T. H.

**187** M. N. 7, 6.

Dyma destun newydd etto
I glodfori Brenin nef,
Am roi'r Ysbryd Glân i'n nerthu
'Wneyd ei 'wyllys nefol ef;
Para wnelo hwn i'n tywys
Trwy bob gofid sy'n y byd,
Nes cyrhaeddom draw yn Seion,
Lle y cwrdda'r Saint i gyd. T. E.

**188** M. N. 8, 7, 4.

Clod am grefydd yn ei sylwedd,
Ce's rhyw gysgod ddigon hir;
Mewn tywyllwch bum ers amser,
Gyda'r Saint ces oleu clir;
Clod am dano,
Byth mi lynaf gyda'r gwaith. T. E.

**189** M. N. 8, 7.

Enaid gwerthfawr, tyr'd yn fuan
I gael gafael ar y gwir;
O, nac oeda'r cyfle cyntaf,
Rhag it' oedi yn rhy hir;
Ufyddha i'r wir efengyl,
Heibio gad bechodau'n llwyr;
Trwy ffyddlondeb a diwydrwydd,
Cei gysuron foreu a hwyr.

Trwy'r gwir ddrws dos mewn i'r gorlan,
Yma cei fendithion mawr,
Addawedig gan ein Harglwydd,
Pan oedd yma ar y llawr;

Tystion ydym ninnau etto
Fod ei eiriau'n gadarn oll—
Bod arwyddion 'nawr yn canlyn
Y credinwyr yn ddigoll. T. LL.

## 190 M. N. 11au.

Sing praises, O brethren, and loudly rejoice,
For great are our favours, and many our joys:
In union we journey—to Zion we go;
We'll travel the desert, and conquer the foe.

Tho' many obstructions against us may rise,
Let's not be dishearten'd, for great is the prize;
Our heads let us lift—our rescue is near,
In peace shall we end our earthly career.

The sun, and the moon, and the stars shall darken,
And together shall shake the powers of heaven:
But all this will be but a sign to the faithful,
That the Lord very soon will ransom his people.

How sweet the idea—to live and remain
In the land where the Saviour for ever shall reign?
To hope for is sweet, but more sweet to enjoy
And ever inherit the kingdom of joy.

If such we do picture the "land of the free,"
Industrious or slothful, what ought we to be?
Let's labour in earnest, and strength will be given,
For our reward is awaiting in heaven. *

**191** M. N. 8, 7.

What was witness'd in the heavens?
Why, an angel earthly bound.
Had he something with him bringing?
Yes—the gospel—joyful sound!
It was to be preach'd in power
Upon earth, the angel said—
To all men, all tongues, and nations,
That upon its face are spread.

Had not we before the gospel?
Yes—had several taught by men.
Then, what is this latter gospel?
'Tis the first one come again.
This was preach'd by Paul and Peter,
And by Jesus Christ, the head;
This we, latter saints, are preaching—
We their footsteps wish to tread.

Where so long has been the gospel?
Didn't it ever "fall away?"
What became of those neglected?
"God is just"—that's all we say.
Seek no crop where 'twas not planted,
Nor a day where reigns the night;
Now the sunshine bright is beaming,
Let all creatures *see* aright. *

## 192 M. C.

O God, give strength to all thy Saints,
And courage give them too;
And, O lend them thy mighty hand,
To conquer every foe.

CHORUS.

Then we will march on thro' the world,
Not caring what to meet,
For soon the wicked shall be low,
And trodden under feet.

Thy Saints are weak, but Thou art strong,
There's all we want in Thee;
And Thou hast promised us thy aid,
When we united be.

O, guard our footsteps in the wilds,
And guide us day and night;
Give signs when enemies approach,
And thro' us show Thy might.

We want no cowards in our ranks,
For we don't think to yield;
And for the victory we'll fight,
Or perish in the field.

We will not perish, though we die,
We'll rise to life again;
God only wants us to be brave,
The battle *He* will gain.

Thou God, who did'st the sea divide,
And led thy people thro',

Thy mighty hand is still the same,
And we *do know* it too. *

## 193 M. N.

Hark! 'tis Jehovah's call;
Will you come?
He now invites you all;
Will you come?
Tho' you have sin'd 'gainst Heaven,
Thro' baptism you'll have pardon,
And share the blessings given,
If you come.

Hark! 'tis Jehovah's call;
O, do come:
He now invites you all;
O, do come.
He'll send his heavenly Spirit,
And give you tidings thro' it,
That you may life inherit,
If you come. *

## 194 M. H.

Praise God from whom all blessings flow,
Praise him, all creatures here below;
Praise him above, ye heavenly host,
Praise Father, Son, and Holy Ghost.

J. Davis, Argraffydd, Merthyr-Tydfil.